Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 43/2013

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Deilliannau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Adroddiad 1)

**Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen:**

**Deilliannau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Adroddiad 1)**

**Rhys Davies, Chris Taylor, Trisha Maynard, Mirain Rhys, Samuel Waldron a David Blackaby**

**(Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd)**

Barnau'r ymchwilwyr yw'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o angenrheidrwydd yn farnau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Enw: Launa Anderson

Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5274

E-bost: launa.anderson@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-1-4734-0039-9

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013

## Tabl Cynnwys

Rhestr o Acronymau ........................................................................................ i
CRYNODEB GWEITHREDOL ........................................................................ ii
1 Cyflwyniad .................................................................................................. 1
2 Cysyniadu Poblogaeth y Cyfnod Sylfaen .................................................. 8
3 Nodweddion Ysgolion y Cyfnod Sylfaen .................................................. 13
4 Y Cyfnod Sylfaen ac Absenoliaeth .......................................................... 16
5 Cymharu Deilliannau Cyfnod Allweddol 1 a’r Cyfnod Sylfaen ................. 34
6 Deilliannau Cymharol Disgyblion y Cyfnod Sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 2 ........................................................................................... 44
7 Casgliadau ................................................................................................ 57
Cyfeiriadau ................................................................................................... 61
Atodiad A. Cynnwys Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ...................... 62
Atodiad B. Trosolwg o’r Fethodoleg Cydweddu Sgôr Tebygolrwydd ............. 64

## Mynegai Ffigurau

Ffigur 1: Trosolwg o'r Cynllun Fesul Cam ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen ..........2
Ffigur 2: Anghydraddoldebau mewn Absenoliaeth – Sesiynau a Fynychwyd 31
Ffigur 3: Anghydraddoldebau mewn Absenoliaeth – Un neu Fwy o Absenoldebau Anawdurdodedig ..........33
Ffigur 4: Anghydraddoldebau mewn Cyrhaeddiad Blwyddyn 2: Ysgolion Peilot ac Ysgolion Dechrau'n Gynnar ..........43
Ffigur 5: Anghydraddoldebau mewn Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 2: Ysgolion Peilot ..........56

## Mynegai Tablau

Tabl 1: Cynrychioliad Syml o Gwmpasiad y Cyfnod Sylfaen..........10
Tabl 2: Poblogaeth Plant sy'n Dod o Dan Gwmpas y Cyfnod Sylfaen (Derbyn+), yn ôl Cam Cyflwyno ..........10
Tabl 3: Nodweddion Demograffig Disgyblion y CS (Derbyn+), yn ôl Cam Cyflwyno ..........14
Tabl 4: Nifer y plant i bob Oedolyn mewn ysgolion CS (Derbyn+), yn ôl Cam Cyflwyno ..........15
Tabl 5: Canran y Diwrnodau yn Bresennol (Blwyddyn 1/2; 2007/08 ymlaen), yn ôl Cam Cyflwyno ..........18
Tabl 6: Canran y Disgyblion ag Absenoldeb Anawdurdodedig (Blwyddyn 1/2; 2007/08 ymlaen), yn ôl Cam Cyflwyno..........19
Tabl 7: Amcangyfrifon Amlamrywedd o Effaith y Cyfnod Sylfaen ar Absenoliaeth, yn ôl Cam Cyflwyno..........22
Tabl 8: Dadansoddiad PSM o Effaith y Cyfnod Sylfaen ar Absenoliaeth ..........29
Tabl 9: Cymharu Asesiadau Cyfnod Allweddol 1 ac Asesiadau'r Cyfnod Sylfaen..........37
Tabl 10: Parhad Rhwng Asesiadau Mathemateg Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 ..........38
Tabl 11: Parhad Rhwng Asesiadau Saesneg Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 ..........38

Tabl 12: Anghydraddoldeb mewn Deilliannau Mathemateg Blwyddyn 2 – Canran yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig mewn Mathemateg, yn ôl Cam Cyflwyno ....... 40
Tabl 13: Anghydraddoldeb mewn Deilliannau Saesneg Blwyddyn 2 – Canran yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig mewn Saesneg ....... 41
Tabl 14: Argaeledd Deilliannau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Disgyblion y Cyfnod Sylfaen, yn ôl Cam Cyflwyno ....... 45
Tabl 15: Canran yn Cyflawni Lefel 4 neu Uwch yn Saesneg CA2, yn ôl Cam Cyflwyno ....... 47
Tabl 16: Canran yn Cyflawni Lefel 4 neu Uwch yn Mathemateg CA2, yn ôl Cam Cyflwyno ....... 48
Tabl 17: Canran yn Cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Gwyddoniaeth CA2, yn ôl Cam Cyflwyno ....... 49
Tabl 18: Amcangyfrifon Amlamrywedd o'r Tebygolrwydd o Gyflawni Lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 ....... 51
Tabl 19: Dadansoddiad PSM o Effaith y Cyfnod Sylfaen ar Ddeilliannau Cyfnod Allweddol 2 ....... 54

## Rhestr o Acronymau

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| CA1 | Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol |
| CA2 | Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol |
| CCC | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| CDA | Cymarebau Disgybl Athro |
| CS | Y Cyfnod Sylfaen |
| cyf | Categori Cyfeirio (ystadegau amlamrywedd) |
| DM | Datblygiad Mathemategol |
| DPChLIADd | Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol |
| DyG | Datblygiad y Gymraeg |
| ILlCh | Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu |
| NPD | Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion |
| PSM | Cydweddu Sgôr Tebygolrwydd |
| PYDd | Prydau Ysgol am Ddim |
| RhAA | Rhagdybiaeth Annibyniaeth Amodol |
| WISERD | Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru |

## CRYNODEB GWEITHREDOL

### *Cyflwyniad*

1. Polisi blaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar (i blant 3 i 7 oed) yng Nghymru yw'r Cyfnod Sylfaen. Mae'n nodi gwyriad radical oddi wrth yr ymagwedd fwy ffurfiol, yn seiliedig ar gymhwysedd, a oedd yn gysylltiedig â Chwricwlwm Cenedlaethol blaenorol Cyfnod Allweddol 1, ac mae'n eiriol dull atblygiadol, arbrofol o addysgu a dysgu, sy'n seiliedig ar chwarae. Noda *Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001) fod Cymru, yn dilyn datganoli, wedi bwriadu mabwysiadu ei chyfeiriad polisi ei hun er mwyn 'cael y gorau i Gymru'. Roedd yn ymddangos bod cael y gorau i Gymru yn golygu wynebu heriau'r farchnad fyd-eang (codi lefelau sgiliau sylfaenol[1]); goresgyn anfantais gymdeithasol; adeiladu cymdeithas gref, fentrus sy'n croesawu amlddiwylliannaeth; a hyrwyddo iaith a thraddodiadau Cymru. Ystyriwyd bod cyfranogi yn ymagwedd allweddol.
2. Deillia'r adroddiad hwn o'r gwerthusiad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD).
3. Hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau a fydd yn archwilio deilliannau sydd ar gael o ddadansoddi Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (NPD). Yn benodol, mae'n cyflwyno canfyddiadau ar gyfraddau absenoldeb ac asesiadau athrawon ar gyfer holl blant Cymru a oedd rhwng pedair a saith oed rhwng 2004/05 a 2010/11.
4. Disgwylir y bydd adroddiadau pellach yn dadansoddi data o'r NPD yn cael eu cyhoeddi trwy gydol cyfnod y gwerthusiad, wrth i ddata ychwanegol o flwyddyn i flwyddyn gael ei gasglu a dod ar gael i'r tîm gwerthuso.
5. Prif nod yr adroddiad hwn yw cymharu'r deilliannau ar gyfer plant a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen gyda deilliannau plant a ddilynodd Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn flaenorol. Mae'r adroddiad yn

[1]Gelwir hyn yn llythrennedd a rhifedd mewn dogfennau polisi diweddar Llywodraeth Cymru.

cyflwyno canfyddiadau'n ymwneud â nifer o ddeilliannau allweddol, gan gynnwys:

(a) cyfraddau a natur absenoliaeth

(b) asesiadau athrawon a wnaed ym Mlwyddyn 2 (h.y. asesiadau a gynhelir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 neu'r Cyfnod Sylfaen)

(c) asesiadau athrawon a gynhelir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (h.y. ym Mlwyddyn 6).

6. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried dau brif gyfyngiad y dadansoddiad hwn. Yn gyntaf, bydd effaith y Cyfnod Sylfaen yn arwain at newidiadau mewn ystod eang o ddeilliannau na ellir eu cipio gan fesurau deilliannau 'gwaelodlin' cyfyng eu diffiniad a gesglir drwy asesiadau athrawon. Yn ail, er mai nod yr adroddiad oedd manteisio ar y broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen fesul cam fel y gellir gwneud cymariaethau 'tebyg wrth debyg', mae cynnwys a strwythur y dadansoddiad wedi'u pennu yn y pen draw gan ddata sydd ar gael.

***Anghydraddoldebau mewn Deilliannau***

7. Un o nodweddion pwysig y Cyfnod Sylfaen oedd lleihau anghydraddoldebau mewn deilliannau cymdeithasol a deilliannau addysg. Fodd bynnag, datgela'r dadansoddiad nad yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, hyd yma, yn gysylltiedig â newidiadau yn y gwahaniaethau mewn deilliannau rhwng is-grwpiau poblogaeth, fel y rheiny a ddiffinnir gan hil, ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol. Gwelir parhad yn yr anghydraddoldebau o ran absenoliaeth a chyrhaeddiad. Mae'r grwpiau hynny sy'n dangos yr anfanteision mwyaf o ran deilliannau addysgol yn cynnwys y rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) a'r rhai sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Hyd yn oed ymhlith y grwpiau hyn, lle mae'r potensial mwyaf i leihau anghydraddoldebau, dangosir bod y patrymau a fodolai cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn parhau ar ôl ei gyflwyno.

***Presenoldeb***

8. O ran absenoliaeth, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael hyd yma yn awgrymu bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gysylltiedig â gwelliant yn lefelau presenoldeb cyffredinol disgyblion, wedi'u mesur o ran cyfran y sesiynau y mae disgyblion yn yr ysgol.

9. Yn ogystal, mae tystiolaeth i awgrymu bod nifer yr absenoldebau anawdurdodedig wedi cynyddu yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a gyflwynodd y Cyfnod Sylfaen yn ystod y Cam Dechrau'n Gynnar o'i gyflwyno. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiad hwn ymhlith ysgolion Dechrau'n Gynnar yn cael ei ailadrodd ymhlith y boblogaeth ysgolion ehangach.
10. Serch hynny, ymhlith ysgolion yn y Cam Cyflwyno Terfynol o'r Cyfnod Sylfaen (sef mwyafrif yr ysgolion yng Nghymru), fe wnaeth absenoliaeth anawdurdodedig ymhlith disgyblion Blwyddyn 1 ostwng ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

***Asesiadau Athrawon ar Ddiwedd Blwyddyn 2***

11. O ran asesiadau athrawon, nid oedd y dadansoddiad yn gallu pennu pa un a yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi effeithio ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion ym Mlwyddyn 2. Yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, daeth newidiadau i'r dulliau ar gyfer asesu disgyblion, o ran y meysydd pwnc a'r lefelau ar gyfer graddio disgyblion. Er mai'r bwriad oedd y byddai rhywfaint o gysondeb rhwng y ddwy gyfundrefn asesu, gyda'r lefel cyrhaeddiad disgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 1 (Lefel 2) yn gyfwerth â'r lefel cyrhaeddiad disgwyliedig o dan y Cyfnod Sylfaen (Lefel 5), dangoswyd nad felly oedd hi yn ymarferol.

***Asesiadau Athrawon Cyfnod Allweddol 2***

12. Oherwydd y diffyg parhad yn y dulliau asesu ym Mlwyddyn 2 yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, asesiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2 yw'r unig sail gyson i allu cymharu deilliannau addysgol disgyblion arni gan ddefnyddio'r cofnodion gweinyddol a gynhwysir yng Nghronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Fodd bynnag, caiff y dadansoddi hwn ei rwystro gan argaeledd presennol data deilliannau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant a aeth drwy'r Cyfnod Sylfaen.
13. Er hyn, fodd bynnag, ymddengys bod perfformiad cymharol carfannau cynnar o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen o ysgolion Peilot yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi gwella o gymharu â chyrhaeddiad carfannau cynharach o ddisgyblion o'r un ysgolion hyn.
14. Yn sicr, nid yw'r data sydd ar gael yn cadarnhau pryderon y gallai symud i ffwrdd oddi wrth yr ymagwedd fwy ffurfiol, yn seiliedig ar gymwyseddau

sy'n gysylltiedig â Chyfnod Allweddol 1 blaenorol y Cwricwlwm Cenedlaethol gael effeithiau negyddol ar gyrhaeddiad tymor hwy.

15. Ar hyn o bryd, nid yw'r canlyniadau yn bendant ac maent yn sensitif i'r technegau amcangyfrif a ddefnyddiwyd. Yn ogystal, ni ellir cyffredinoli canlyniadau yn seiliedig ar y carfannau cynnar hyn o ddisgyblion i boblogaeth ehangach disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, mae rhywfaint o dystiolaeth betrus i awgrymu bod perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi gwella ymhlith disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

***Dadansoddi yn y Dyfodol***

16. Yr adroddiad hwn yw'r adroddiad cyntaf ar ddadansoddiad yn seiliedig ar ddata gweinyddol a gedwir ar yr NPD. Yn ystod y gwerthusiad, ymgymerir â fersiynau pellach o'r dadansoddiad hwn. Nod y cam nesaf fydd ymgorffori data o 2011/12. Eleni fydd y flwyddyn gyntaf pan fydd yr holl blant 6/7 oed wedi'u hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen. Er na ellir gwneud unrhyw gymariaethau mewn deilliannau rhwng deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a deilliannau Cyfnod Allweddol 1, bydd argaeledd y data hwn yn arbennig o bwysig o ran deall effaith y Cyfnod Sylfaen ar absenoliaeth.

17. Bydd argaeledd data 2011/12 hefyd yn galluogi cynnwys yn y dadansoddiad blwyddyn arall o blant a ymgymerodd â'r Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau Peilot a gafodd eu hasesu yng Nghyfnod Allweddol 2.

# 1 Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn deillio o'r gwerthusiad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD). Mae'r gwerthusiad tair blynedd (2011-2014) yn cynnwys pedwar prif nod, sef:

- gwerthuso pa mor dda y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith ac amlygu ffyrdd i allu gwneud gwelliant
- gwerthuso pa effaith y mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i chael hyd yma
- asesu gwerth am arian y Cyfnod Sylfaen
- rhoi fframwaith gwerthuso ar waith ar gyfer olrhain allbynnau a deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.


1.2. Ymddengys bod y Cyfnod Sylfaen yn nodi gwyriad radical oddi wrth yr ymagwedd fwy ffurfiol, yn seiliedig ar gymhwysedd, at addysg plentyndod cynnar sydd wedi'i chysylltu â'r Cwricwlwm Cenedlaethol weithiau. Drwy ddefnyddio tystiolaeth o raglenni da'r blynyddoedd cynnar yn Llychlyn, Reggio Emilia a Seland Newydd (Te Whãriki) sy'n dangos y gall mabwysiadu cwricwlwm rhy ffurfiol ac addysgu ffurfiol helaeth cyn chwech neu saith oed, arwain at safonau cyrhaeddiad is yn y tymor hwy, mae'n hyrwyddo ymagwedd arbrofol, seiliedig ar chwarae at ddysgu ar gyfer plant tair i saith oed. Mae'n pwysleisio lle canolog y plentyn a phwysigrwydd lles plant, ac o blaid cydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dechrau gan y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr[2] (neu'n cael eu dechrau gan ymarferwyr) mewn amgylcheddau ysgogol dan do ac yn yr awyr agored.

1.3 Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen i ysgolion cynradd (neu fabanod) mewn tri cham. Yn gyntaf, yn ystod 2004/05, rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar

[2] Ym mhob gohebiaeth gyfredol y Cyfnod Sylfaen a dogfennau newydd, cyfeirir at hyn bellach fel gweithgareddau sy'n cael eu dechrau gan y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion.

waith mewn 22 o ysgolion[3], y cyfeirir atynt fel ysgolion Peilot. Plant a gafodd eu geni yn ystod 2000/01 oedd y garfan gyntaf i ddilyn rhaglen y Cyfnod Sylfaen drwy'r ysgolion Peilot hyn. Yn ail, yn 2007/08, rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith mewn 22 ysgol arall, y cyfeirir atynt fel yr ysgolion Dechrau'n Gynnar. Yn olaf, yn 2008/09, rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith fesul cam yn yr holl ysgolion eraill yng Nghymru, a phlant a anwyd yn 2004/05 oedd y garfan gyntaf i dderbyn y Cyfnod Sylfaen. Cyfeirir at yr ysgolion hyn fel ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf. Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae'r broses o gyflwyno'r Cyfnod sylfaen fesul cam yn cysylltu â'r gwerthusiad.

**Ffigur 1: Trosolwg o'r Cynllun Fesul Cam ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen**




1.4 Yn ogystal â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen fesul cam i ysgolion gwahanol, cyflwynodd pob ysgol y Cyfnod Sylfaen i un garfan ar y tro, gan ddechrau gyda phlant mewn dosbarthiadau meithrin a/neu ddosbarthiadau derbyn. Golygai hyn, wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i ysgolion yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf, y byddai plant yn y carfannau hŷn wedi bod yn dilyn Cyfnod Allweddol 1 (CA1) y Cwricwlwm Cenedlaethol tra byddai plant yn y carfannau iau wedi bod yn dilyn y Cyfnod Sylfaen. Cymhlethir hyn ymhellach gan bresenoldeb

[3] Mae'r Cyfnod Sylfaen yn berthnasol hefyd i blant oed meithrin yn y sector nas cynhelir a ariennir. Cynhwyswyd nifer o'r rhain hefyd yng ngham Peilot cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, gan fod yr adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â dadansoddi Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ac asesiadau statudol yr ymgymerwyd â nhw, dim ond at yr ysgolion y cyfeiriwn yn yr adroddiad hwn.

sylweddol dosbarthiadau oed/carfannau cymysg yng Nghymru, yn enwedig mewn ysgolion cynradd bach; sy'n golygu y byddai rhai ysgolion y cyflwyno'r ddau gwricwlwm yn yr un dosbarthiadau gan yr un athrawon ond i grwpiau gwahanol o blant.

**Nodau'r Adroddiad**

1.5 Hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau y bydd y gwerthusiad yn eu cynhyrchu wrth ddadansoddi Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (NPD). Mae'r NPD yn cynnwys data gweinyddol ar gyfer yr holl blant yn ysgolion Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth allweddol yn ymwneud â nodweddion plant mewn ysgolion ac yn cynnwys manylion eraill yn ymwneud â'u cynnydd addysgol, sef data asesiadau athrawon a data presenoldeb yn bennaf.

1.6 At ddibenion yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu data dienw ar lefel disgyblion o'r NPD am y cyfnod 2004/05 i 2010/11. Rhoddir manylion cynnwys y detholiadau data hyn yn Atodiad A. Disgwylir y bydd adroddiadau pellach yn dadansoddi data o'r NPD yn cael eu cyhoeddi trwy gydol cyfnod y gwerthusiad, wrth i ddata ychwanegol o flwyddyn i flwyddyn gael ei gasglu a dod ar gael i'r tîm gwerthuso.

1.7 Mae dau brif nod i'r adroddiad hwn. Y nod cyntaf yw sefydlu dull dadansoddol o gymharu deilliannau ar gyfer plant a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen gyda phlant a ddilynodd ei brif ragflaenydd, sef CA1. Yr ail nod yw cyflwyno canfyddiadau o'r dadansoddiad cychwynnol o ddata o'r NPD yn ymwneud â nifer o ddeilliannau allweddol, yn bennaf (a) cyfraddau absenoldeb a (b) asesiadau athrawon, ar gyfer yr holl blant yng Nghymru a oedd yn bedair i saith oed rhwng 2004/05 a 2010/11.

**Dull Dadansoddol**

1.8 Wrth werthuso deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, gellir mynd ati i ddadansoddi'r NPD mewn dwy brif ffordd.

1.9 Yn gyntaf, mae'n cynnig y cyfle i gymharu deilliannau cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, drwy gymharu deilliannau ar gyfer plant mewn carfannau gwahanol. Er bod hyn yn rhoi dadansoddiad eithaf syml, prif gyfyngiad y dull hwn yw nad ydyn yn cymharu plant a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen â'i ragflaenydd, CA1, yn *yr un* flwyddyn academaidd.

1.10 Fodd bynnag, mae'r ail ddull o ddadansoddi yn defnyddio'r broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn ddilyniannol, a amlinellwyd uchod, i'n galluogi i gymharu deilliannau ar gyfer plant a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen gyda deilliannau ar gyfer plant a ddilynodd CA1, o'r *un* flwyddyn academaidd. Y dull hwn sy'n sail i lawer o'r dadansoddi a gynhwysir yn yr adroddiad cyntaf hwn. I gael mwy o fanylion am gynllun cyflwyno fesul cam y dull hwn, gweler Taylor et al (2012).

1.11 Prif gyfyngiad y dull hwn yw bod rhaid i ni ddibynnu ar gymharu deilliannau plant o ysgolion *gwahanol*. Felly, fe allai unrhyw wahaniaethau sylfaenol yn yr ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw ragfarn o ran dethol yn y dewis o ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau'n Gynnar, danseilio'r graddau y gallwn gysylltu deilliannau â phresenoldeb y Cyfnod Sylfaen, o bosibl.

1.12 O ganlyniad, mae cam cyntaf y dadansoddi yn dechrau gyda chysyniadu sut cafodd y Cyfnod Sylfaen ei roi ar waith fesul cam, a sut mae datblygiad disgyblion a oedd wedi cyfranogi yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod camau gwahanol ei gyflwyno yn llywio dadansoddiadau dilynol (Pennod 2). O ystyried y dull cymhleth o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i ysgolion gwahanol a charfannau gwahanol o blant, mae hyn yn bennaf oll yn dibynnu ar ba asesiad athrawon (CA1 neu Ddiwedd y

Cyfnod Sylfaen) a gofnodwyd ar gyfer plentyn fel y prif ddangosydd o ba un a ddilynodd plentyn y Cyfnod Sylfaen neu beidio.

1.13 Rydym wedyn yn archwilio unrhyw wahaniaethau yn nodweddion cymharol disgyblion o fewn y tair set wahanol o ysgolion, ar sail pa gam y maent arno o ran rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith (Pennod 3). Mae'r data sydd ar gael yn cynnwys gwybodaeth am oed, rhyw, ethnigrwydd, hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd), a pha un a oes ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu beidio. Mae'n bwysig bod unrhyw wahaniaethau yn nodweddion disgyblion yn yr ysgolion hyn yn cael eu hystyried ar ôl hynny wrth archwilio data sydd ar gael ar ddeilliannau.

1.14 Er mwyn lleihau ymhellach ddylanwad unrhyw ragfarn dethol wrth fynd ati i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen fesul cam, ceisiwn hefyd gyfuno'r ddau ddull dadansoddol uchod. Felly, nid yn unig y mae gennym ddiddordeb i gymharu deilliannau plant mewn ysgolion gwahanol yn yr un flwyddyn academaidd, rydym yn archwilio hefyd sut mae deilliannau plant o garfannau gwahanol ond yn yr un ysgolion yn newid cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

1.15 Yn dilyn archwiliad disgrifiadol cychwynnol o nodweddion plant mewn camau gwahanol o'r broses o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith fesul cam, mae'r dadansoddiad yn mynd ymlaen wedyn i archwilio data ar ddeilliannau sydd ar gael mewn perthynas â gweithredu'r CS, a'i effaith bosibl. Ystyrir dau faes allweddol o ddata deilliannau, sef **data presenoldeb** a **data asesiadau athrawon**. Defnyddir data presenoldeb i archwilio newidiadau yng nghyfranogiad plant mewn addysg gynradd. Gallai newidiadau mewn presenoldeb adlewyrchu newidiadau yn agweddau rhieni tuag at addysg yn y blynyddoedd cynnar o addysg eu plant. Gall newidiadau mewn presenoldeb hefyd adlewyrchu gwelliannau yn iechyd a lles plant sy'n cyfranogi yn y Cyfnod Sylfaen. Mae data'r NPD yn cael ei ddefnyddio felly i archwilio

pa effaith (os o gwbl) y mae’r Cyfnod Sylfaen wedi’i chael ar bresenoldeb mewn ysgolion (Pennod 4).

1.16 O ran deilliannau addysgol, defnyddir data asesiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 1 (Pennod 5) a Chyfnod Allweddol 2 (Pennod 6) i wneud cymariaethau rhwng ac o fewn ysgolion ar sail eu cam priodol yn y broses o roi’r Cyfnod Sylfaen ar waith. Mae diddordeb clir mewn archwilio pa un a yw cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen wedi arwain at newidiadau amlwg mewn mesurau deilliannau.

1.17 Hefyd, er nad yw hynny yn nod benodol y Cyfnod Sylfaen, derbynnir yn gyffredinol fod anghydraddoldebau mewn deilliannau addysgol yn ffactor pwysig wrth fynd ati i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen (Maynard et al. 2013). Er enghraifft, tynnodd *Y Wlad sy’n Dysgu* (CCC 2001) sylw at yr angen i leihau’r bwlch mewn cyflawniad rhwng bechgyn a merched yng Nghymru. Mae’r dadansoddiad felly yn archwilio hefyd pa un a yw cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â newidiadau yn y gwahaniaethau mewn deilliannau addysgol. Yn benodol, mae’n ystyried gwahaniaethau mewn cyflawniad rhwng grwpiau allweddol o’r boblogaeth, fel y rheini a ddiffinnir yn ôl hil, ethnigrwydd, a chefndir economaidd-gymdeithasol.

1.18 O’r cychwyn cyntaf, mae’n bwysig cydnabod cyfyngiadau’r dadansoddiadau ystadegol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Yn gyntaf, mae’n bwysig pwysleisio mai nod y Cyfnod Sylfaen yw arwain at newidiadau mewn ystod eang o ddeilliannau a meysydd dysgu na ellir eu cipio gan fesurau deilliannau ‘gwaelodlin’ cyfyng eu diffiniad a gesglir drwy asesiadau athrawon. Yn ail, mae’r dadansoddi yn yr adroddiad hwn wedi’i gyfyngu gan argaeledd data. Er enghraifft, dim ond o 2008 y mae data ar absenoliaeth ar gael. Nid oes modd felly cymharu lefelau absenoliaeth mewn ysgolion Peilot cyn ac ar ôl cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen. Mae’r data diweddaraf sydd ar gael o Asesiadau Athrawon yn ymwneud â 2010/11. Nid oes gennym ddata felly ar ddeilliannau’r Cyfnod Sylfaen o ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf

yr ymgymerwyd â nhw gyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2011/12. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond plant a oedd ymhlith y carfannau cynharaf i gymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Peilot sydd wedi'u hasesu yng Nghyfnod Allweddol 2 (CA2). Nid oes modd felly asesu effaith tymor hir y Cyfnod Sylfaen ar ddeilliannau mwy ffurfiannol. Yn olaf, er bod camau gwahanol y broses 'rhoi ar waith fesul cam' yn cynnig cyfleoedd i gymharu ysgolion yn ôl eu statws gweithredu, nid oes unrhyw ysgolion 'rheolaeth' ffurfiol yng Nghymru i gymharu'r deilliannau â hwy er mwyn nodi 'effaith' y CS. Er y gwneir pob ymdrech i wneud cymariaethau 'tebyg wrth debyg' rhwng ysgolion, nid oes modd cyfrif yn gywir am effeithiau dewis i'r cynllun yn ystod y broses o roi'r camau Peilot a Dechrau'n Gynnar ar waith fesul cam.

1.19 Yn olaf, mae'n bwysig pwysleisio hefyd er gwaethaf ein hymdrechion gorau i wneud cymariaethau 'teg' neu 'debyg am debyg o'r Cyfnod Sylfaen gyda'i ragflaenydd (CA1), nid oes modd fyth dweud yn llawn beth fyddai deilliannau plentyn penodol wedi bod pe bai wedi dilyn y ddwy raglen cwricwlwm, ac wedi cael y ddau asesiad athrawon cyfatebol[4].

[4] Fel y gwelwn, mae anawsterau wrth gymharu asesiadau athrawon y Cyfnod Sylfaen gydag asesiadau athrawon CA1. Dull ychwanegol a ddefnyddir yn ystod y gwerthusiad fydd cymharu plant a fynychodd ysgolion Peilot y Cyfnod Sylfaen â phlant eraill yng Nghymru sy'n aelodau o Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCS). Mae'r astudiaeth o'r garfan hon o enedigaeth yn cynnwys asesiadau uniongyrchol cyffredin o'r plant o'r ddau fath o ysgolion mewn llythrennedd a rhifedd.

## 2 Cysyniadu Poblogaeth y Cyfnod Sylfaen

2.1 Trwy gydol gweddill yr adroddiad hwn, nodwn dri grŵp o ddisgyblion:

i. disgyblion mewn ysgolion lle nad oedd y Cyfnod Sylfaen wedi'i roi ar waith eto ('CA1')

ii. disgyblion mewn ysgolion y Cyfnod Sylfaen ond nad oeddent eu hunain wedi'u hasesu (neu ar fin cael eu hasesu) drwy'r Cyfnod Sylfaen ('CS Allan')

iii. disgyblion a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen ac a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen ('CS I Mewn').

2.2 Fel yr amlinellwyd yn y Bennod flaenorol, rhagdybir nad oedd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgol yn golygu bod pob un o'r disgyblion yn yr ysgol yn dilyn rhaglen y Cyfnod Sylfaen[5]. Ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, roedd cyfnod pontio pan oedd disgyblion hŷn yn parhau i gael eu hasesu yn erbyn pynciau a lefelau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae maint y grŵp hwn o ddisgyblion a gafodd eu hasesu, neu a oedd ar fin cael eu hasesu, o dan CA1 yn lleihau'n raddol wrth i'r carfannau hŷn hyn symud ymlaen i CA2. Pan gaiff y carfannau cyntaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen, tybir bod yr ysgol wedi cwblhau trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen yn llawn. O'r adeg honno ymlaen, cymerir bod yr holl ddisgyblion yn dod o dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen.

2.3 Mae'r dull a fabwysiadwyd i nodi disgyblion y CS ('CS I Mewn') a disgyblion heb fod yn y CS ('CS Allan') mewn ysgolion y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos yn Nhabl 1. Roedd yr amseriad o ran asesu disgyblion o ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau'n Gynnar am y tro cyntaf drwy'r Cyfnod Sylfaen, yn fwy cymhleth mewn gwirionedd na hynny a led-awgrymwyd gan y disgrifiad o'r broses o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith fesul cam a amlinellwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad

[5] Fodd bynnag, mae'n eithaf posibl bod rhai ysgolion wedi dechrau cyflwyno elfennau o'r Cyfnod Sylfaen i blant eraill, hŷn, yn eu hysgol.

hwn. Ymhlith yr ysgolion Peilot, dechreuodd 11 o ysgolion i asesu disgyblion drwy'r Cyfnod Sylfaen yn 2005/06. Fe wnaeth 10 o'r ysgolion a oedd yn weddill gyflwyno'u hasesiadau CS cyntaf yn ystod 2006/07. O'r 22 o ysgolion Dechrau'n Gynnar, fe wnaeth 19 gyflwyno'u hasesiadau CS yn ystod 2009/10. Dechreuodd y tair ysgol arall asesu disgyblion drwy'r Cyfnod Sylfaen ar adegau gwahanol mewn amser. Er na chânt eu dangos yn Nhabl 1, mae'r dyddiadau dechrau gwahanol hyn ar gyfer asesiadau'r Cyfnod Sylfaen ymhlith ysgolion Dechrau'n Gynnar wedi'u hystyried wrth ddiffinio poblogaeth y disgyblion sy'n dod o dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen.

2.4 Gan gymhwyso'r fethodoleg hon, dangosir y boblogaeth plant ddeilliedig a gwmpesir gan y Cyfnod Sylfaen yn Nhabl 2. Ymhlith yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar, mae niferoedd y plant y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen yn gostwng wrth i garfannau hŷn o ddisgyblion heb fod yn y Cyfnod Sylfaen a gafodd eu hasesu drwy CA1, fynd drwy'r ysgolion hyn. Gwelir y trosglwyddo o CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol i'r Cyfnod Sylfaen yn fwyaf clir ymhlith yr ysgolion Dechrau'n Gynnar. Ymhlith yr ysgolion hyn, mae argaeledd data o'r NPD ynghyd ag amseriad cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, yn golygu bod modd arsylwi disgyblion yn yr ysgolion hyn: (a) cyn cyflwyno i'r Cyfnod Sylfaen, (b) yn ystod y cyfnod trosglwyddo ar ôl rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, a (c) ar ôl yr amser pan fydd yr holl blant yn yr ysgolion hyn yn dod o dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen.

2.5 Gweithredwyd y cam olaf o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith mewn ysgolion yn ystod 2008/09. Felly, yn 2009/10 yr arsylwir y plant cyntaf oedran derbyn sy'n dod o dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen. Cynhaliwyd asesiadau cyntaf y Cyfnod Sylfaen ymhlith Disgyblion Blwyddyn 2 yn ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf yn ystod haf 2012. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r NPD yn cynnwys data'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2011/12.

**Tabl 1: Cynrychioliad Syml o Gwmpasiad y Cyfnod Sylfaen**

| Cam CS | Deilliannau Cyntaf y CS | N | 2004/5 | 2005/6 | 2006/7 | 2007/8 | 2008/9 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Peilot | 2005/06 | **11** | =<B 1 | Pawb | Pawb | Pawb | Pawb | Pawb | Pawb |
| | 2006/07 | **11** | =<Derbyn | =<B 1 | Pawb | Pawb | Pawb | Pawb | Pawb |
| Dechrau'n Gynnar | 2009/10 | **22** | Dim | Dim | Dim | =< Derbyn | =< B1 | Pawb | Pawb |

**Tabl 2: Poblogaeth Plant sy'n Dod o Dan Gwmpas y Cyfnod Sylfaen (Derbyn+), yn ôl Cam Cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | | Cam Cyflwyno Olaf | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | |
| 2004/05 | 1,076 | 847 | 2,941 | 0 | 95,704 | 0 | 100,568 |
| 2005/06 | 407 | 1,496 | 2,880 | 0 | 92,843 | 0 | 97,626 |
| 2006/07 | 52 | 1,862 | 2,830 | 48 | 90,549 | 0 | 95,341 |
| 2007/08 | 0 | 1,764 | 1,891 | 935 | 90,185 | 0 | 94,775 |
| 2008/09 | 0 | 1,687 | 940 | 1,903 | 90,570 | 0 | 95,100 |
| 2009/10 | 0 | 1,734 | 41 | 2,848 | 60,828 | 31,485 | 96,936 |
| 2010/11 | 0 | 1,648 | 0 | 2,959 | 30,734 | 63,445 | 98,786 |
| **Cyfanswm** | **1,535** | **11,038** | **11,523** | **8,693** | **551,413** | **94,930** | **679,132** |

2.6 Mae nifer o gafeatau y mae angen eu hystyried mewn perthynas â'r cynrychioliad o boblogaeth y Cyfnod Sylfaen a ddisgrifir yn Nhabl 2. Yn gyntaf, cafodd nifer o ysgolion eu huno, naill ai cyn neu ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mewn rhai achosion, roedd lefel y diffyg parhad yn gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath yn isel. Enghraifft o hyn fyddai ysgol fabanod yn uno ag ysgol iau gyfagos ar yr un safle i ffurfio ysgol gynradd. Mewn achosion eraill, roedd achosion o uno yn gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion lleol ar lefel fwy difrifol fel cau ysgol. Mae plant o ysgolion sydd wedi cael eu huno wedi'u cadw yn y dadansoddiad sy'n dilyn. Mae rhifau adnabod ysgolion wedi'u hail-godio fel bod modd ymgorffori profiadau plant a fynychodd yr ysgolion hyn cyn eu huno yn y dadansoddiad. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn rhai ysgolion fod wedi digwydd yn ystod cyfnod pan oedd ysgol hefyd wedi gorfod wynebu newidiadau sylweddol eraill.

2.7 Yn fwy arwyddocaol, mae dosbarthiad plentyn o ran pa un a oedd wedi'i addysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen ai peidio yn seiliedig ar ba un a yw'r plentyn hwnnw yn cael ei asesu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn y pen draw neu beidio. Yn ymarferol, yn ystod y cyfnod trosglwyddo pan fydd ysgol yn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith fesul cam ymhlith carfannau olynol o blant, mae'n ddadleuol a ellir dosbarthu plant unigol yn nhermau pa un a ydynt yn derbyn y Cyfnod Sylfaen ai peidio. Yn gyntaf, mae'n annhebygol bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gysylltu ar unwaith â newid 'sylweddol' mewn dulliau addysgu. Efallai nad oedd y Cyfnod Sylfaen wedi'i roi ar waith yn llwyr ymhlith y plant hynny o oed derbyn a oedd ymhlith y carfannau cyntaf i gael eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen ryw dair blynedd yn ddiweddarach. Yn ail, mae'n debygol y bydd effeithiau 'gorlif' lle bydd plant nad ydynt yn cael eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu heffeithio hefyd gan newidiadau a gyflwynwyd yn yr ysgol, boed hynny yn nhermau dulliau addysgu, newidiadau i drefniant y diwrnod ysgol neu fuddsoddiadau mewn adnoddau ysgol. Yr enghraifft amlycaf o hyn fydd plant mewn grwpiau oed/blwyddyn cymysg, lle byddai'n anodd i blant hŷn gael eu

datgysylltu oddi wrth newidiadau'n cael eu cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ymhlith carfannau iau. Yn ddelfrydol, byddai'n well hepgor data o'r ysgolion hyn yn ystod eu cyfnod trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen. Yn ymarferol, byddai hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar gymariaethau y gellir eu gwneud o blant cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau'n Gynnar. Mae'r diffiniad yn seiliedig ar asesu felly yn ddewis pragmatig sy'n seiliedig ar y data sydd ar gael.

# 3 Nodweddion Ysgolion Cyfnod Sylfaen

3.1 Yn yr adran hon, amlinellwn rai o nodweddion allweddol disgyblion sy'n mynychu ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau'n Gynnar o gymharu â'r disgyblion hynny mewn ysgolion sydd yn y Cam Cyflwyno Olaf. Dewiswyd pob un o'r ysgolion Dechrau'n Gynnar ar y sail eu bod wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n dod o dan raglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru. Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar yw Dechrau'n Deg, sy'n targedu teuluoedd â phlant o dan bedair oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru[6]. Mae'r dadansoddiad yn Nhabl 3 yn cadarnhau bod plant mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar yn fwy tebygol o lawer o fod â hawl i gael PYDd; mae cyfran y disgyblion mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar sy'n derbyn PYDd (41%) fwy na dwywaith y lefel a welwyd yng Nghymru yn gyffredinol (19%).

3.2 Caiff natur gymharol ddifreintiedig ysgolion Dechrau'n Gynnar ei hadlewyrchu hefyd gan y gyfran uwch o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn sydd wedi'u dosbarth fel disgyblion ag AAA. Yn benodol, mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar, roedd rhyw 29% o ddisgyblion wedi'u dosbarthu fel disgyblion ag AAA yn ystod y cyfnod yn nata'r NPD, sef rhyw 11 o bwyntiau canran yn uwch na hynny a welwyd yng Nghymru yn gyffredinol (18%). Ar draws pob un o'r ysgolion, mae nifer y disgyblion ag AAA yn uwch ymhlith disgyblion hŷn am y cymer amser i'w hanghenion gael eu nodi. Fodd bynnag, yn yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar, mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod disgyblion, o dan y Cyfnod Sylfaen, yn cael eu nodi ag AAA yn gynharach. Erbyn Blwyddyn 2, mae cyfran y disgyblion y nodwyd bod AAA ganddynt yn weddol debyg rhwng disgyblion y CS a disgyblion nad ydynt yn y CS. Nid oes unrhyw wahaniaethau'n dod i'r golwg yng nghyfansoddiad yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar o ran rhyw ac ethnigrwydd.

---

[6] http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/flyingstart/?lang=en

**Tabl 3: Nodweddion Demograffig Disgyblion y CS (Derbyn+), yn ôl Cam Cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | | Cam Cyflwyno Olaf | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | |
| **% Benyw** | | | | | | | |
| Derbyn | 44.4 | 47.0 | 49.0 | 47.2 | 48.5 | 48.7 | 48.5 |
| Blwyddyn 1 | 48.3 | 47.7 | 47.9 | 48.5 | 48.5 | 48.6 | 48.5 |
| Blwyddyn 2 | 50.6 | 47.9 | 48.3 | 47.6 | 48.6 | . | 48.6 |
| Cyfanswm | 49.8 | 47.5 | 48.3 | 47.7 | 48.5 | 48.7 | 48.5 |
| **% Gwyn** | | | | | | | |
| Derbyn | 92.6 | 82.8 | 86.3 | 87.8 | 89.7 | 88.5 | 89.2 |
| Blwyddyn 1 | 84.1 | 83.6 | 86.5 | 89.1 | 91.2 | 89.7 | 90.7 |
| Blwyddyn 2 | 87.4 | 84.4 | 88.5 | 88.9 | 91.3 | . | 91.1 |
| Cyfanswm | 86.7 | 83.6 | 87.3 | 88.5 | 90.8 | 88.9 | 90.3 |
| **% yn Gymwys i Gael Prydau Ysgol am Ddim** | | | | | | | |
| Derbyn | 25.9 | 21.8 | 36.0 | 39.0 | 17.2 | 20.4 | 18.8 |
| Blwyddyn 1 | 26.3 | 22.2 | 37.6 | 41.2 | 18.6 | 21.6 | 19.7 |
| Blwyddyn 2 | 23.8 | 21.4 | 38.1 | 41.1 | 19.0 | . | 19.7 |
| Cyfanswm | 24.6 | 21.8 | 37.4 | 40.1 | 18.4 | 20.8 | 19.4 |
| **% Anghenion Addysgol Arbennig** | | | | | | | |
| Derbyn | 1.9* | 16.0 | 16.6 | 22.8 | 9.4 | 10.3 | 10.1 |
| Blwyddyn 1 | 17.3 | 22.2 | 27.7 | 32.7 | 17.9 | 17.3 | 18.2 |
| Blwyddyn 2 | 27.8 | 29.5 | 35.1 | 37.9 | 25.2 | . | 25.5 |
| Cyfanswm | 24.1 | 22.0 | 28.0 | 29.3 | 18.4 | 12.6 | 18.0 |

*Maint y sampl yn seiliedig ar lai na 50 o arsylwadau

3.3 Wrth roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith fesul cam, mae ymrwymiad i gyflawni cymhareb newydd (uwch) oedolion-i-blant o 1:8 ymhlith disgyblion 3 i 5 oed, a chymhareb o 1:15 i ddisgyblion 6 i 7 oed. Un arwydd cynnar o effaith y Cyfnod Sylfaen yw pa un a welir y cymarebau hyn ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mae Tabl 4 yn rhoi cymarebau cyfunol oedolion-i-blant ar lefel ysgolion ar gyfer y rheini yn y dosbarth derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Oherwydd lefel y manylder a gynhwysir yn y data gweinyddol, nid oes modd cyflwyno cymarebau ar wahân oedolion-i-blant ar gyfer grwpiau oed penodol - a thrwy wneud hynny, dynodi'r gwahaniaeth rhwng carfannau ar sail pa un a oeddent yn dod o dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen neu beidio.

Serch hynny, gellir gweld bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn amlwg yn gysylltiedig â gwelliant yn y gymhareb oedolion-i-blant. Ymhlith yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar, gellir gweld yn Nhabl 4 bod gostyngiad ar unwaith yn nifer y plant fesul oedolyn ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mewn ysgolion Peilot yn ystod 2005/06 ac yn yr ysgolion Dechrau'n Gynnar yn ystod 2007/08, dangosir bod cymarebau oedolion-i-blant yn gwella o ryw 2.5 i 3 disgybl fesul oedolyn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ymhlith yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar, gwelir bod y gostyngiad hwn yn parhau yn y blynyddoedd sy'n dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Ymhlith yr ysgolion Cam Cyflwyno Olaf, mae'r gwelliant yn y gymhareb oedolion-i-blant wedi bod yn fwy graddol, gyda chynnydd yn y cymarebau oedolion-i-blant i weld yn dod i'r amlwg cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Tua adeg cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ymhlith plant oed dosbarth derbyn (2008/09), gwelir gwelliant yn y gymhareb oedolion-i-blant o un disgybl fesul oedolyn.

**Tabl 4: Nifer o Blant i bob Oedolyn* mewn ysgolion CS (Derbyn+), yn ôl Cam Cyflwyno**

| Blwyddyn | Peilot | Dechrau'n Gynnar | Cam Cyflwyno Olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2004/05 | 18.3 | 17.8 | 18.5 | 18.5 |
| 2005/06 | 15.9 | 15.3 | 18.0 | 17.8 |
| 2006/07 | 13.7 | 16.6 | 17.5 | 17.4 |
| 2007/08 | 13.9 | 13.7 | 16.9 | 16.8 |
| 2008/09 | 12.6 | 13.3 | 15.5 | 15.4 |
| 2009/10 | 10.9 | 11.5 | 14.5 | 14.3 |
| 2010/11 | 11.6 | 10.9 | 13.6 | 13.5 |
| **2004/05-2010/11** | -6.7 | -6.9 | -4.9 | -5.0 |

* Trwy gydol y dadansoddiad hwn, diffinnir 'oedolion' fel athrawon a chynorthwywyr addysgu.

# 4 Y Cyfnod Sylfaen ac Absenoliaeth

## Cyflwyniad

4.1 Un maes y gallai'r Cyfnod Sylfaen gael effaith bwysig ar blant ynddo yw presenoldeb. Gallai cynnydd mewn presenoldeb adlewyrchu newidiadau mewn agweddau (ymhlith plant a rhieni) tuag at addysg gynradd. Mae'n bwysig felly asesu pa un a yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi cael effaith ar lefelau absenoliaeth.

4.2 Rhaid i'r holl blant sy'n derbyn addysg yn yr ysgol yn ystod diwrnod ysgol arferol gael eu rhoi ar y gofrestr presenoldeb sy'n cofnodi presenoldeb pob disgybl yn ystod pob sesiwn hanner diwrnod (bore a phrynhawn) bob dydd y bydd yr ysgol ar agor i ddisgyblion. Pan gofnodir bod disgybl yn absennol, bydd y gofrestr yn cofnodi pa un a oedd yr absenoldeb wedi'i awdurdodi neu heb ei awdurdodi. Mae'r diffiniadau o absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig, fel y'u rhoddir gan Lywodraeth Cymru, fel a ganlyn[7]:

- Absenoldeb awdurdodedig – absenoldeb gyda chaniatâd gan athro neu gynrychiolydd awdurdodedig arall o'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys absenoldeb y rhoddwyd esboniad boddhaol amdano (e.e. salwch, profedigaeth yn y teulu, neu wyliau crefyddol).
- Absenoldeb anawdurdodedig – absenoldeb heb ganiatâd athro neu gynrychiolydd awdurdodedig arall o'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys pob absenoldeb diesboniad neu ddigyfiawnhad.

4.3 Yn 2007/08 y casglwyd data am y tro cyntaf am absenoldeb ar lefel disgyblion o ysgolion cynradd a gynhelir. Nid oes modd felly rhoi unrhyw wybodaeth am lefelau absenoliaeth mewn ysgolion Peilot cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, ymhlith ysgolion Dechrau'n Gynnar, 2007/08 oedd y cyfnod pontio pan oedd rhai carfannau o blant

[7] Gweler http://wales.gov.uk/docs/statistics/2011/111214sdr2312011en.pdf

i'w hasesu drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol o hyd. Nodir felly nad oes data am absenoliaeth ar gael ar gyfer ysgolion Dechrau'n Gynnar cyn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith.

4.4 Mae data absenoliaeth yn ymwneud â phlant o oedran ysgol gorfodol (y rhai pump oed a hŷn) yn unig, ac felly mae'r dadansoddiad sy'n dilyn yn ymwneud â disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 o'r ysgol gynradd yn unig (h.y. mae plant dosbarth derbyn wedi'u hepgor o'r dadansoddiad). Mae'r dadansoddiad o absenoliaeth yn canolbwyntio ar ddau fesur a ddeilliwyd o'r NPD.

i. Diwrnodau yn bresennol: mae hyn yn ymwneud â'r amser y mae disgyblion yn bresennol yn yr ysgol, wedi'i fesur o ran cyfran y sesiynau hanner diwrnod yr oedd disgyblion yn bresennol.
ii. Absenoldeb anawdurdodedig: mae hyn yn ymwneud â'r gyfran o ddisgyblion sydd wedi cael o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn ysgol.

**Lefelau Absenoliaeth**

4.5 O ran lefelau absenoliaeth cyffredinol, mae Tabl 5 yn dangos bod ysgolion Peilot y Cyfnod sylfaen yn dangos lefelau absenoliaeth sy'n debyg i ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf. Ar draws yr holl ysgolion, mae lefelau absenoliaeth ryw dri phwynt canran yn uwch ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd. Fodd bynnag, nid ymddengys bod y gwahaniaeth hwn i'w gael ym mhresenoldeb lefel ysgol isaf ymhlith disgyblion mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar lle mae cyfran y disgyblion y dangosir eu bod yn gymwys i gael PYDd yn uwch.

4.6 Nid ymddengys bod gwahaniaethau mewn presenoldeb rhwng is-grwpiau poblogaeth yn cael eu heffeithio gan gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

**Tabl 5: Canran y Diwrnodau yn Bresennol (Blwyddyn 1/2; 2007/08 ymlaen), yn ôl Cam Cyflwyno**

| | % o ddiwrnodau yn bresennol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | | Cam Cyflwyno Olaf | | |
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | Cyfanswm |
| **Rhyw** | | | | | | | |
| Gwryw | | 92.3 | 91.5 | 91.1 | 92.9 | 92.7 | 92.8 |
| Benyw | | 92.2 | 91.8 | 91.2 | 92.9 | 92.6 | 92.8 |
| Gwahaniaeth | | 0.1 | -0.3 | 0.0 | 0.0 | 0.1 | 0.0 |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | | |
| Gwyn | | 92.6 | 92.0 | 91.5 | 93.1 | 92.9 | 93.1 |
| Heb fod yn wyn | | 90.5 | 88.7 | 88.4 | 90.7 | 90.0 | 90.5 |
| Gwahaniaeth | | 2.1 | 3.3 | 3.1 | 2.5 | 3.0 | 2.6 |
| **Statws PYDd** | | | | | | | |
| Dim-PYDd | | 93.0 | 92.4 | 92.1 | 93.6 | 93.4 | 93.5 |
| PYDd | | 89.8 | 90.4 | 89.8 | 90.2 | 89.9 | 90.1 |
| Gwahaniaeth | | 3.2 | 1.9 | 2.2 | 3.4 | 3.5 | 3.4 |
| **Statws AAA** | | | | | | | |
| Dim-AAA | | 92.8 | 92.2 | 91.7 | 93.4 | 93.0 | 93.3 |
| AAA | | 90.7 | 90.4 | 90.1 | 91.2 | 90.9 | 91.1 |
| Gwahaniaeth | | 2.0 | 1.8 | 1.6 | 2.2 | 2.1 | 2.2 |
| **Cyfanswm** | | **92.3** | **91.6** | **91.2** | **92.9** | **92.6** | **92.8** |

4.7 Mae'r gyfran gymharol uwch o blant sy'n gymwys i gael PYDd yn yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar yn fwy amlwg wrth ystyried nifer y disgyblion ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn ysgol (Tabl 6). Ar draws yr holl ysgolion, cofnodir bod gan 32.7% o ddisgyblion un neu fwy o absenoldebau anawdurdodedig. Yn yr ysgolion Peilot, mae'r ganran hon yn cynyddu i 40.6% ymhlith disgyblion sydd wedi cyfranogi yn y Cyfnod Sylfaen.

**Tabl 6: Canran y Disgyblion ag Absenoldeb Anawdurdodedig (Blwyddyn 1/2; 2007/08 ymlaen), yn ôl Cam Cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | | Cam Cyflwyno Olaf | | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | |
| **% Rhyw** | | | | | | | |
| Gwryw | | 39.7 | 55.0 | 61.8 | 31.5 | 32.7 | 32.6 |
| Benyw | | 41.5 | 56.4 | 62.6 | 31.7 | 32.8 | 32.8 |
| Gwahaniaeth | | -1.8 | -1.4 | -0.8 | -0.2 | -0.1 | -0.2 |
| **% Ethnigrwydd** | | | | | | | |
| Gwyn | | 35.3 | 53.4 | 60.2 | 30.4 | 31.3 | 31.4 |
| Heb fod yn wyn | | 67.2 | 73.2 | 78.3 | 43.6 | 45.4 | 45.7 |
| Gwahaniaeth | | -32.0 | -19.8 | -18.1 | -13.2 | -14.2 | -14.3 |
| **% Statws PYDd** | | | | | | | |
| Dim-PYDd | | 35.3 | 46.6 | 54.3 | 26.9 | 27.1 | 27.6 |
| PYDd | | 59.5 | 70.4 | 73.5 | 51.8 | 53.1 | 53.3 |
| Gwahaniaeth | | -24.2 | -23.8 | -19.2 | -24.9 | -26.0 | -25.7 |
| **% Statws AAA** | | | | | | | |
| Dim-AAA | | 38.5 | 53.6 | 59.0 | 29.1 | 31.1 | 30.2 |
| AAA | | 46.9 | 59.9 | 68.3 | 40.6 | 40.4 | 41.8 |
| Gwahaniaeth | | -8.4 | -6.3 | -9.3 | -11.5 | -9.3 | -11.6 |
| **Cyfanswm** | | **40.6** | **55.7** | **62.2** | **31.6** | **32.7** | **32.7** |

4.8 Ymhlith disgyblion yn yr ysgolion Dechrau'n Gynnar y mae'r lefelau absenoldeb anawdurdodedig uchaf. Ymhlith y disgyblion hynny sy'n dod o dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen, cofnodir bod 62% wedi cael absenoldeb anawdurdodedig. Mae'r ffigur hwn chwe phwynt canran yn uwch na lefelau absenoldeb anawdurdodedig ymhlith disgyblion nad ydynt yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen, ac mae hynny o bosibl yn dangos bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi cyfrannu at lefelau uwch o absenoldeb anawdurdodedig.

4.9 Fodd bynnag, rhaid nodi nad yw cipolygon cynnar o ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf yn rhoi unrhyw dystiolaeth fod y patrwm hwn yn cael ei ailadrodd ar draws yr holl ysgolion yng Nghymru, gan awgrymu y gallai

hyn fod yn nodwedd benodol dechrau cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Dechrau’n Gynnar.

4.10 Yn unol â lefelau absenoldeb yn gyffredinol, nid ymddengys bod gwahaniaethau mewn absenoldeb anawdurdodedig rhwng is-grwpiau poblogaeth yn cael eu heffeithio gan gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen.

**Amcangyfrif Effaith y Cyfnod Sylfaen ar Absenoliaeth**

4.11 Mae’r dadansoddiad blaenorol wedi dangos rhai o’r amrywiadau mewn absenoliaeth sy’n bodoli rhwng is-grwpiau disgyblion amrywiol. Un broblem sydd wrth wraidd yr amrywiadau hyn yw nad yw’n glir pa gyfraniad ar wahân a chyfraniad ychwanegol a wna pob ffactor at y tebygolrwydd y bydd gan unigolyn lefelau uwch neu is o absenoliaeth. Er enghraifft, a yw’r amrywiad mewn cyrhaeddiad yn ôl ethnigrwydd yn ganlyniad syml y ffaith fod y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol hefyd o gael PYDd, ac felly byddai disgwyl iddynt fod â lefelau absenoliaeth uwch o ganlyniad i’w cefndir economaidd-gymdeithasol? Fel arall, a yw ethnigrwydd ei hun yn gysylltiedig â lefelau uwch o absenoliaeth? A yw gwahaniaethau mewn absenoliaeth rhwng disgyblion ag AAA a disgyblion heb AAA hefyd yn ganlyniad cefndir economaidd-gymdeithasol, neu a gaiff statws PYDd a statws AAA effaith ar wahân ac ychwanegol ar absenoliaeth?

4.12 Yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig i’r dadansoddiad presennol yw nodi dylanwad posibl y Cyfnod Sylfaen ar absenoliaeth. Felly, y cwestiwn i fynd i’r afael ag ef yw, o ystyried nodweddion unigol disgyblion sy’n cyfranogi yn nhri cham cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen, a yw’r lefelau absenoliaeth yn uwch neu’n is nag y byddem yn disgwyl iddynt fod.

4.13 I ddatblygu dealltwriaeth well o’r materion hyn, defnyddiwn ddull ystadegol sy’n gallu nodi sut y mae ystod o nodweddion unigol a nodweddion yn gysylltiedig ag ysgol yn cyfrannu at lefelau absenoliaeth a welwyd. Defnyddir technegau ystadegol amlamrywedd i

amcangyfrif ar yr un pryd ddylanwad ar wahân a dylanwad ychwanegol nodweddion gwahanol ar absenoliaeth disgyblion, a thrwy hynny galluogi datgysylltu a gwerthuso effaith cyfranogi yn y Cyfnod Sylfaen ar absenoliaeth.

4.14 Mae dwy set o fodelau atchwel wedi'u hamcangyfrif. Mae'r set gyntaf yn archwilio effaith y Cyfnod Sylfaen ar lefelau cyffredinol absenoliaeth. Yma, mae'r fethodoleg yn defnyddio manyleb sylfaenol Sgwariau Lleiaf Cyffredin ac yn archwilio pa ffactorau sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o ba ddisgyblion sy'n bresennol am fwy o amser neu lai o amser yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'r ail set o fodelau yn archwilio effaith y Cyfnod Sylfaen ar lefelau absenoldeb anawdurdodedig. Yma, dynodir gwahaniaeth rhwng disgyblion o ran pa un a ydynt wedi cael absenoldeb anawdurdodedig neu beidio yn ystod y flwyddyn academaidd. Defnyddir atchweliad logistaidd wedyn i bennu pa nodweddion sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd cymharol y bydd plentyn yn cael absenoldeb anawdurdodedig. O fewn pob set o atchweliadau, amcangyfrifir pedwar model ar wahân er mwyn manteisio ar gyflwyniad dilyniannol y Cyfnod Sylfaen. Amcangyfrifir modelau hefyd ar gyfer grwpiau blwyddyn penodol er mwyn sicrhau bod cymariaethau 'tebyg am debyg' yn cael eu gwneud.

4.15 Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad yn Nhabl 7. Er mwyn dangos yn rhwydd, dim ond canlyniadau'n ymwneud â chwmpasiad y Cyfnod Sylfaen a gyflwynir. Caiff yr holl fodelau ystadegol eu rheoli ar yr un pryd ar gyfer ystod o nodweddion eraill yn cynnwys rhyw, oed, ethnigrwydd, cymhwyster i gael PYDd a statws AAA. Cynhwysir y newidynnau rheoli hyn ar lefel unigolyn a lefel ysgol (h.y. canran y disgyblion mewn ysgol sy'n wyn). Defnyddir sêr i ddynodi presenoldeb perthnasoedd sydd ag arwyddocâd ystadegol ar lefelau arwyddocâd 1% (***), 5% (**) a 10% (*).

4.16 Mae panel uchaf Tabl 7 yn cyflwyno canlyniadau ar gyfer lefelau absenoliaeth cyffredinol (a fesurwyd yn nhermau canran y sesiynau a

fynychwyd). Mae'r panel isaf yn cyflwyno canlyniadau ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig.

**Tabl 7: Amcangyfrifon Amlamrywedd o Effaith y Cyfnod Sylfaen ar Absenoliaeth, yn ôl Cam Cyflwyno**

| Poblogaeth | Sampl Lawn | Cam Cyflwyno Olaf | Dechrau'n Gynnar | |
|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
| ***% newid mewn presenoldeb*** | | | | |
| | Model 1 | Model 2 | Model 3 | Model 4 |
| Cam Peilot: CS Allan | | | | |
| Cam Peilot: CS i Mewn | 0.003 | | | |
| Cam Dechrau'n Gynnar: CS Allan | 0.005 | | cyf | cyf |
| Cam Dechrau'n Gynnar: CS i Mewn | 0.004 | | -0.001 | 0.002 |
| Cam Cyflwyno Olaf: CS Allan | cyf. | cyf. | | |
| Cam Cyflwyno Olaf: CS i Mewn | 0.004*** | 0.004*** | | |
| ***Tebygolrwydd cymharol absenoldeb anawdurdodedig (%)*** | | | | |
| | Model 5 | Model 6 | Model 7 | Model 8 |
| Cam Peilot: CS Allan | | | | |
| Cam Peilot: CS i Mewn | 15.2 | | | |
| Cam Dechrau'n Gynnar: CS Allan | 53.2 | | cyf | cyf |
| Cam Dechrau'n Gynnar: CS i Mewn | 70.5*** | | 26.2 | 30.7 |
| Cam Cyflwyno Olaf: CS Allan | cyf. | cyf. | | |
| Cam Cyflwyno Olaf: CS i Mewn | -9.8*** | -6.1* | | |

* p<0.10, ** p<0.05, *** p<0.01

4.17 Ym mhob model, caiff categori a ddewiswyd yn fympwyol ei ddethol i weithio fel y grŵp cyfeirio ar gyfer gwerthuso effaith bod yn grŵp penodol o ddisgybl yn ei erbyn. Mae Model 1 yn dangos bod lefelau presenoldeb wedi gwella ymhlith disgyblion Blwyddyn 1 yn y Cyfnod Sylfaen (CS) o gymharu â'r rhai nad oeddent yn dod o dan gwmpas y

Cyfnod Sylfaen (CS Allan). Amcangyfrifir hefyd fod lefelau presenoldeb yn uwch ymhlith disgyblion Blwyddyn 1 yn yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar, ond nid oes arwyddocâd ystadegol i'r gwahaniaethau hyn.

4.18 Mae Model 2 yn ailadrodd y dadansoddiad ar ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf yn unig. Unwaith eto, amcangyfrifir bod presenoldeb yn gwella 0.4%. Mae dadansoddi data'r NPD yn datgelu bod disgyblion yn mynychu'r ysgol am ryw 370-375 o sesiynau bob blwyddyn. Mae cynnydd o 0.4% mewn presenoldeb felly yn gyfwerth â rhyw 1.5 o sesiynau. Yn yr ysgolion Dechrau'n Gynnar, mae cyfle hefyd i gymharu plant a oedd yn dod o dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen â'r rhai a gafodd eu hasesu drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ni welir unrhyw wahaniaethau ag arwyddocâd ystadegol rhwng y ddau grŵp hyn, naill ai ymhlith disgyblion Blwyddyn 1 (Model 3) na disgyblion Blwyddyn 2 (Model 4).

4.19 Oherwydd y technegau modelu gwahanol a ddefnyddiwyd, caiff y canlyniadau'n ymwneud ag absenoldeb anawdurdodedig eu dehongli'n wahanol. Mae'r cysyniad o 'debygolrwydd cymharol' yn sylfaenol i ddehongli'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adran hon. Cyn cyflwyno'r canlyniadau hyn, disgrifiwn beth a olygwn gan risg. Yn Nhabl 6, dangoswyd yn yr ysgolion Cam Cyflwyno Olaf, bod rhyw 52% o ddisgyblion Blwyddyn 1 a oedd yn gymwys i gael PYDd wedi'u cofnodi ag absenoldeb anawdurdodedig. I gymharu, roedd absenoldeb anawdurdodedig gan 27% o ddisgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYDd. Gwelwn felly, ar sail cymharu cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig, bod disgyblion sy'n cael PYDd yn dangos tebygolrwydd cymharol uwch o fod ag absenoldeb anawdurdodedig. Ffordd arall o fynegi'r risg uwch hon o absenoldeb yw dweud, o gymharu â'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael PYDd, bod y rhai sy'n gymwys ryw ddwywaith yn fwy tebygol (rhannu 52% â 27%) o gael absenoldeb anawdurdodedig. Fel arall, mae'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael PYDd ryw 100% yn fwy tebygol (52% llai 27% a fynegir

fel canran o 27%) na disgyblion nad ydynt yn cael PYDd o fod ag absenoldeb anawdurdodedig. Dyma sut y caiff amcangyfrifon o debygolrwydd cymharol a amcangyfrifir o'r dadansoddiad atchweliad eu cyflwyno yn y Panel Isaf yn Nhabl 7.

4.20 Ar draws y sampl gyfan o blant Blwyddyn 1 (Model 5), ymddengys bod yn nifer yr absenoldebau anawdurdodedig wedi gostwng ymhlith disgyblion Blwyddyn 1 yn ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf sydd wedi dilyn y Cyfnod Sylfaen (CS i Mewn) o gymharu â phlant Blwyddyn 1 yn yr ysgolion hyn nad oeddent yn y Cyfnod Sylfaen (CS Allan). Ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion disgyblion ac ysgolion, mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ryw 10% yn llai tebygol o gael absenoldeb anawdurdodedig yn gyffredinol. Mae'r dadansoddiad yn cadarnhau'r lefelau uwch o absenoldeb anawdurdodedig yn yr ysgolion Peilot, gyda risg uwch o 15% o absenoldeb anawdurdodedig ymhlith y plant hynny a oedd yn dod o dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen.

4.21 Mae dadansoddi'n awgrymu felly fod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf wedi bod yn gysylltiedig â gostyngiad yn nifer yr absenoldebau anawdurdodedig. Fodd bynnag, caiff hyn ei wrth-ddweud gan ganlyniadau a ddeilliwyd ar gyfer ysgolion Dechrau'n Gynnar. Mae risg gymharol uwch absenoldeb anawdurdodedig ymhlith plant mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar a oedd yn y Cyfnod Sylfaen (risg uwch o 71%) o gymharu â'r plant hynny a adawodd yr ysgolion hyn cyn asesiadau'r Cyfnod Sylfaen (53%), yn codi'r posibilrwydd fod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer yr absenoldebau anawdurdodedig. Archwilir hyn yn fanylach ym Model 7 (ar gyfer disgyblion Blwyddyn 1) a Model 8 (ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2). Wrth gymharu â sefyllfa plant mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar, amcangyfrifir bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â risg uwch o absenoldebau anawdurdodedig rhwng 25-30%, er nad amcangyfrifir bod arwyddocâd ystadegol i'r gwahaniaeth hwn ymhlith y naill grŵp o ddisgyblion neu'r llall. Fe allai anghysonderau o'r fath adlewyrchu eu hamgylchiadau

penodol, gyda'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion cymharol ddifreintiedig yn ystod Cam Dechrau'n Gynnar o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

**Dadansoddiad Effaith Gwrthffeithiol o'r Cyfnod Sylfaen ar Absenoliaeth**

4.22 Ymhlith plant yn yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar, gellir edrych ar gyfranogiad yn y Cyfnod Sylfaen fel triniaeth lle gallai eu cyfranogiad (triniaeth) effeithio'n ffafriol neu'n niweidiol ar fesur deilliant, fel presenoldeb. Yn ddelfrydol, mae unrhyw arfarniad o'r effeithiau hyn yn mynnu cyfrif o beth fyddai wedi digwydd i'r plant hyn yn yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar pe na baent wedi cyfranogi yn y Cyfnod Sylfaen (sef y gwrthffeithiol). Mae'r gwrthffeithiol buddiol felly yn diffinio grŵp rheoli neu sampl y mae eu profiadau'n adlewyrchu'r deilliannau damcaniaethol, heb eu gweld, ar gyfer y grŵp triniaeth. Un o gyfyngiadau'r dadansoddiadau atchweliad a ddisgrifir uchod yw bod effaith bod yn ddisgybl mewn ysgol Beilot neu ysgol Dechrau'n gynnar, mewn rhai achosion, yn cael ei gwerthuso mewn cymhariaeth â'r boblogaeth ehangach o blant nad ydynt yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen. Roedd disgyblion nad oeddent yn nodweddiadol o'r plant a oedd yn mynychu ysgolion Peilot neu ysgolion Dechrau'n Gynnar yn cyfrannu at y dadansoddiad o berthnasoedd a arsylwyd. Pe bai'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith mewn mathau arbennig o ysgolion yn ystod ei ddyddiau cynnar, byddai'n fwy priodol i gyfyngu cymariaethau o absenoliaeth i gynnwys yn unig ysgolion a disgyblion sy'n rhannu nodweddion tebyg i'r rhai sy'n mynychu'r ysgolion Peilot neu'r ysgolion Dechrau'n Gynnar.

4.23 Mae'r dadansoddiad o Bennod 2 yn awgrymu na chafodd ysgolion yn y Cam Peilot, ac yn arbennig, yn y Cam Dechrau'n Gynnar, eu dewis ar hap ac nad oeddent felly yn gynrychioliadol o boblogaeth ehangach ysgolion cynradd (neu fabanod) yng Nghymru. Roedd nifer uwch o blant ag AAA a phlant yn gymwys i gael PYDd yn y ddau grŵp o ysgolion. Dylid archwilio effaith y Cyfnod Sylfaen felly mewn perthynas

ag ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf sy'n rhannu nodweddion tebyg i'r ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar.

4.24 Datblygwyd technegau cydweddu ystadegol i ddarparu dulliau ar gyfer diffinio grwpiau rheoli a gwerthuso triniaethau yn absenoldeb dyraniad arbrofol delfrydol cychwynnol (gweler Rosenbaum, 2002; Caliendo a Kopeinig, 2008 a Peel a Makepeace, 2010 i gael cyflwyniadau i gydweddu ystadegol). Yn syml, y syniad y tu ôl i gydweddu ystadegol yw dewis grŵp o blant mewn ffordd sy'n eu gwneud yn debyg i'r cyfranogwyr yn y Cyfnod Sylfaen ym mhob agwedd, ac eithrio'r ffaith eu bod yn derbyn y driniaeth. Os gwneir hyn yn gywir, yna mae'r deilliant a welir ar gyfer y grŵp a gydweddwyd yn dod yn agos at y gwrthffeithiol (h.y. beth fyddai wedi digwydd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn absenoldeb y Cyfnod Sylfaen). Caiff effaith y driniaeth (neu'r ymyrraeth) ei hamcangyfrif yn syml wedyn fel y gwahaniaeth rhwng deilliannau cyfartalog y ddau grŵp. Cyflwynir trosolwg manylach o gydweddu ystadegol (cyfeirir ato fel Cydweddu Sgôr Tebygolrwydd (PSM)) yn Atodiad B.

4.25 Mae nifer o dechnegau PSM gwahanol y gellir eu cymhwyso. Yn yr achos symlaf, sef y dull 'cymydog agosaf', caiff y grŵp rheoli ei greu trwy gydweddu pob person sy'n cael ei drin â'r sawl nad yw'n cael ei drin gyda'r nodweddion agosaf (fel y nodir gan y sgôr tebygolrwydd agosaf). Gellir mireinio'r dechneg hon trwy bennu lleiafswm gwahaniaethau derbyniol mewn sgorau (caliper) a chaniatáu i berson heb ei drin gael ei gydweddu ag un person wedi'i drin yn unig (cydweddu heb ddisodli) neu fwy nag un person wedi'i drin (cydweddu a disodli)[8]. Nid oes unrhyw 'brawf' gwrthrychol o'r dull cywir i'w ddefnyddio, ac mae angen llunio barnau yng nghyd-destun nodweddion y setiau data sy'n cael eu cydweddu. Yn y dadansoddiad presennol, defnyddiwn dechnegau cydweddu cymydog agosaf a

[8] Mae'r technegau cydweddu ystadegol a ddefnyddir yma yn amcangyfrif camgymeriadau safonol bras sy'n gysylltiedig ag effeithiau triniaeth, gan ragdybio arsylwadau annibynnol. Nid ystyrir effeithiau clystyru mewn ysgolion, ond byddant yn ffocws dadansoddiadau yn y dyfodol.

gynhelir gan ddisodli a heb ddisodli, ac sy'n defnyddio caliperau gwahanol er mwyn archwilio sensitifrwydd y canlyniadau amcan i'r dewis o fanyleb. Gweithredir y fethodoleg cydweddu ystadegol ar lefel y disgybl unigol, er y caiff rhai newidynnau cydweddu eu mesur ar lefel ysgol. Mae'r un newidynnau rheoli a ddefnyddir yn y dadansoddiad amlamrywedd o bresenoldeb a ddisgrifir uchod (gweler paragraff 4.15), eu defnyddio hefyd at ddibenion cydweddu ystadegol.

4.26 Mae'r dadansoddiad yn gyfyngedig i ysgolion Dechrau'n Gynnar am mai yn yr ysgolion hyn yn unig y gellir gwneud cymariaethau o absenoliaeth ymhlith disgyblion a gafodd eu hasesu cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mewn egwyddor, os rhoddir y dull cydweddu ystadegol ar waith gydag amrywiaeth gyfoethog o newidynnau esboniadol a all gyfrif yn gywir am nodweddion disgyblion ac ysgolion, yna ni ddylai fod gofyniad am gymariaethau 'cyn' ac 'ar ôl'. Yn ymarferol, dim ond gwybodaeth gymharol gyfyngedig y mae'r NPD yn ei chynnwys am nodweddion gweladwy disgyblion ac ysgolion. Felly, mae llawer o nodweddion a allai fod yn gysylltiedig ag absenoliaeth yn dal heb eu gweld. Hyd yn oed gyda data cyfoethocach fyth, byddai'n anodd cyfrif am nodweddion anweladwy a allai fod yn gysylltiedig ag ysgolion sy'n cytuno i gymryd rhan yng nghamau cynnar rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, fel lefelau cymhelliant ac ymrwymiad ymhlith staff. Mae'r gallu i gyferbynnu deilliannau ysgolion Cyfnod Sylfaen cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi'r cyfle felly i roi cyfrif am effeithiau dewis o'r fath.

4.27 Mae'r dadansoddiad yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 fel ei gilydd. Y flwyddyn waelodlin yw 2007/08, ac yn ystod y flwyddyn bydd rhaid i'r holl ddisgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar gael eu hasesu drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol o hyd. Mae'r dadansoddiad ar gyfer y flwyddyn hon, felly, yn rhoi cymhariaeth waelodlin o lefelau absenoliaeth disgyblion mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar cyn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, gyda disgyblion 'wedi'u cydweddu' o ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf. Er

mwyn ystyried effaith gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, ailadroddir y dadansoddiad ar gyfer y flwyddyn ysgol 2009/10. Eleni yw'r flwyddyn olaf ymhlith ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf lle'r oedd plant Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn parhau i'w hasesu yn erbyn CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol (plant oed derbyn oedd y garfan gyntaf a oedd i'w hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen). Erbyn 2009/10, byddai'r holl ddisgyblion mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar wedi cael eu hasesu yn erbyn yr Asesiadau ar Ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

4.28 Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad PSM yn Nhabl 8. Cyflwynir gwahaniaethau amcangyfrifedig, a chyflwynir y meintiau sampl a gydweddwyd sy'n sail i'r amcangyfrifon hyn mewn cromfachau. Defnyddir sêr i ddynodi presenoldeb perthnasoedd sydd ag arwyddocâd ystadegol ar lefelau arwyddocâd 1% (***), 5% (**) a 10% (*). O ran lefelau absenoliaeth cyffredinol (panel uchaf), mae'r dadansoddiad yn datgelu bod lefelau presenoldeb yn yr ysgolion Dechrau'n Gynnar yn 2007/08 ychydig yn uwch (0.7-1.3 pwynt canran) na'r rheiny a welwyd ymhlith sampl debyg o blant a gydweddwyd o ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf. Mae'r gwahaniaeth hwn yn aros yr un fath yn 2009/10, gan awgrymu nad yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar wedi dylanwadu ar lefelau absenoliaeth cyffredinol. O ran absenoldeb anawdurdodedig, gwelir eto fod gan yr ysgolion Dechrau'n Gynnar gyfran uwch o blant a gofnodwyd fel rhai ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig. Amcangyfrifir bod y gwahaniaeth hwn yn rhyw 7-10 pwynt canran. Nodir bod y gwahaniaeth hwn wedi'i gydweddu yn is na'r gwahaniaethau heb eu cydweddu a gyflwynir yn Nhabl 6, a oedd tua 25-30 o bwyntiau canran. Mae hyn yn tanlinellu agwedd bwysig ar gydweddu ystadegol o ran cynhyrchu sampl fwy 'cytbwys' i allu cymharu effaith ymyrraeth yn ei herbyn.

4.29 Erbyn 2009/10, mae maint y gwahaniaeth hwn yn cynyddu i ryw 14-20 o bwyntiau canran, gan ddynodi, o gymharu â sampl wedi'i chydweddu o ddisgyblion o ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf, fod cyflwyno'r Cyfnod

Sylfaen mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar wedi cyfrannu at gynnydd cymharol yn nifer yr achosion o absenoldeb anawdurdodedig. Gall ymddangos fod y canlyniad hwn yn gwrth-ddweud y canfyddiad a gafwyd o'r dadansoddiad amlamrywedd yn Nhabl 7, sef bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â gostyngiad mewn absenoldeb anawdurdodedig ymhlith disgyblion Blwyddyn 1 yn ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf. Fodd bynnag, rhaid nodi y cynhelir y Dadansoddiad Effaith o'r Gwrthffeithiol yng nghyd-destun nodweddion yr ysgolion Dechrau'n Gynnar; h.y. ysgolion mewn lleoliadau cymharol amddifad. Gall effaith gyfartalog y Cyfnod Sylfaen ar absenoliaeth fod yn wahanol i'r effaith a amcangyfrifir mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar oherwydd natur annodweddiadol yr ysgolion hyn.

**Tabl 8: Dadansoddiad PSM o Effaith y Cyfnod Sylfaen ar Absenoliaeth**

| | | Caliper | |
|---|---|---|---|
| | Dim | 0.001 | 0.0001 |
| **Gwahaniaethu Pwynt Canran a Amcangyfrifir o Gymharu â Grŵp Rheoli wedi'i Gydweddu** | | | |
| ***Sesiynau yn Bresennol*** | | | |
| 2007/08 | | | |
| Heb ddisodli | 0.68** | 0.78*** | 0.74** |
| | (1,730) | (1,605) | (1,276) |
| Gyda disodli | 1.28** | 1.20* | 1.19* |
| | (1,730) | (1,715) | (1,517) |
| 2009/10 | | | |
| Heb ddisodli | 0.57** | 0.61** | 0.99*** |
| | (1,745) | (1,679) | (1,244) |
| Gyda disodli | 1.33** | 1.41** | 1.55** |
| | (1,745) | (1,704) | (1,612) |
| ***Absenoldebau anawdurdodedig*** | | | |
| 2007/08 | | | |
| Dim disodli | 7.63*** | 7.41*** | 7.76*** |
| | (1,730) | (1,605) | (1,276) |
| Gyda disodli | 9.88*** | 10.26*** | 8.37** |
| | (1,730) | (1,715) | (1,517) |
| 2009/10 | | | |
| Dim disodli | 15.36*** | 14.06*** | 9.65*** |
| | (1,745) | (1,679) | (1,244) |
| Gyda disodli | 21.20*** | 19.66*** | 19.35*** |
| | (1,745) | (1,704) | (1,612) |

* p<0.10, ** p<0.05, *** p<0.01

**Anghydraddoldebau mewn Absenoliaeth**

4.30 Mae'r rhan olaf o'r Bennod hon yn cyflwyno amcangyfrifon a ddeilliwyd o'r dadansoddiad amlamrywedd a ddisgrifiwyd uchod sy'n ymwneud â'r anghydraddoldebau mewn absenoliaeth sy'n bodoli rhwng is-grwpiau poblogaeth gwahanol.


4.31 Cynhelir dadansoddiadau ar wahân ar gyfer disgyblion o ysgolion Dechrau'n Gynnar ac ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf a gafodd eu hasesu cyn cyflwyno'r Asesiadau ar Ddiwedd y Cyfnod Allweddol ac ar ôl cyflwyno asesiadau'r Cyfnod Sylfaen hyn. Mae'r dadansoddiad o ysgolion Dechrau'n Gynnar yn cynnwys disgyblion o Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Cyfyngir y dadansoddiad o ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf i ddisgyblion Blwyddyn 1 am nad oes data ar absenoliaeth ar gael eto ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2.


4.32 Er mwyn eu hesbonio'n rhwydd, cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad ar ffurf graff yn Ffigurau 2 a 3. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y ddau grŵp hyn o ddisgyblion ochr yn ochr yn y ffigurau er mwyn gallu asesu effaith cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar anghydraddoldebau rhwng grwpiau gwahanol. Cyflwynir y bariau fel grwpiau o gategorïau yn cynrychioli nodweddion unigol gwahanol (e.e. rhyw, ethnigrwydd). O fewn pob grŵp, dewisir un categori i weithredu fel categori cyfeirio er mwyn gallu gwerthuso effeithiau categorïau eraill yn ei erbyn. Er enghraifft, caiff effaith cymhwyster i gael PYDd ei ar absenoliaeth ei gwerthuso drwy gymharu â'r disgyblion hynny nad ydynt yn gymwys i gael PYDd.

4.33 Mae'r dadansoddiadau o lefelau cyffredinol absenoliaeth (Ffigur 2) yn datgelu, ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion eraill, fod lefelau presenoldeb yn sylweddol uwch ymhlith disgyblion gwyn na disgyblion heb fod yn wyn. O ran absenoldeb anawdurdodedig (Ffigur 3), mae'r dadansoddiad yn datgelu bod y disgyblion hynny sy'n derbyn PYDd yn arbennig o debygol o gael un neu fwy o gyfnodau o absenoldeb


anawdurdodedig. Mae’r ddau ffigur yn datgelu bod y patrymau anghydraddoldeb a fodolai cyn cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn parhau ar ôl ei gyflwyno.

**Ffigur 2: Anghydraddoldebau mewn Absenoliaeth – Sesiynau a Fynychwyd**



**Ffigur 3: Anghydraddoldebau mewn Absenoliaeth – Un neu Fwy o Absenoldebau Anawdurdodedig**



# 5 Cymharu Deilliannau Cyfnod Allweddol 1 a'r Cyfnod Sylfaen

## Cyflwyniad

5.1 I gyd-fynd â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, newidiwyd y dulliau ar gyfer asesu disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 2 (7 oed). Roedd y rhai a oedd yn cael eu hasesu'n flaenorol yn ôl CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu graddio i un o 6 lefel, gan gynnwys gweithio tuag at Lefel 1, Lefel 1 ac ati hyd at Lefel 5. Dyfarnwyd y graddau hyn ar gyfer mathemateg, gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg. Yn ymarferol, dim ond nifer fach iawn o ddisgyblion fyddai'n cyflawni Lefel 4 neu Lefel 5 erbyn diwedd Blwyddyn 2. Roedd mwyafrif o'r disgyblion yn cyflawni Lefel 2 ym mhob un o'r meysydd pwnc hyn, a Lefel 2 oedd y lefel cyrhaeddiad ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2.

5.2 I'r gwrthwyneb, yn yr Asesiadau ar Ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu graddio ar un o 7 lefel (gan gynnwys gweithio tuag at Lefel 1, Lefel 1 ac ati hyd at Lefel 6) ar gyfer Deilliannau Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (DPChLlADd), Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh) a Datblygiad Mathemategol (DM). Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, caiff disgyblion eu hasesu ym maes dysgu Datblygiad y Gymraeg (WLD). Dim ond mewn dau faes dysgu y mae gofyniad statudol i ysgolion lunio ac adrodd ar asesiadau Cyfnod Sylfaen, sef ILlCh a DM – a'r rhain yw ffocws y dadansoddiad hwn. O dan y Cyfnod Sylfaen, disgwylir i fwyafrif y disgyblion Blwyddyn 2 i gyflawni Lefel 5.

## Asesu Cymharedd Deilliannau Blwyddyn 2

5.3 Mae Tabl 9 yn cymharu deilliannau CA1 a gyflawnwyd gan ddisgyblion o ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau'n Gynnar gyda'r deilliannau CS

ar gyfer disgyblion o’r un ysgolion. Nid yw’r gymhariaeth hon wedi’i hymestyn i ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf gan nad oes unrhyw ddeilliannau CS ar gael adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn (fe wnaeth y garfan gyntaf i fynd drwy asesiadau’r Cyfnod Sylfaen yn y mwyafrif o ysgolion sy’n weddill wneud hynny yn ystod haf 2012 – bydd y deilliannau hyn ar gael mewn adroddiad dilynol gan y tîm gwerthuso).

5.4 Caiff ysgolion cyfrwng Cymraeg eu hadnabod ar y sail pa un a wnaethant gynnal asesiadau ar gyfer Cymraeg yn CA1 neu beidio. Ni ellir adnabod ysgolion cyfrwng Cymraeg trwy ddata deilliannau’r Cyfnod Sylfaen gan na phennir unrhyw wahaniaeth ynglŷn â chyfrwng asesu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae’r nodwr CA1 yn cael ei gadw felly er mwyn gwahaniaethu rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn dilyn rhoi’r Cyfnod Sylfaen ar waith. Mae’r dadansoddiad wedi’i gyfyngu hefyd i Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yn CA1 a’u pynciau Cyfnod Sylfaen cyfwerth agosaf; h.y. Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh) a Datblygiad Mathemategol (DM).

5.5 Gelir gweld o Dabl 9 fod cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen wedi arwain at ddiffyg parhad mewn data asesu. O ganlyniad, mae’n anodd asesu pa un a yw cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen wedi arwain at ddeilliannau gwell ar ddiwedd Blwyddyn 2.

5.6 Mae’n amlwg fod llai o ddisgyblion yn cyflawni’r lefel ddisgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen (Lefel 5) na’r rheiny a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn CA1 o’r Cwricwlwm Cenedlaethol (Lefel 2) yn yr un ysgolion hyn. Mae graddfa’r gwahaniaeth hwn yn amrywio ar draws meysydd pwnc, ond yn gyffredinol mae’n wahaniaeth o 10 pwynt canran (gwelir gwahaniaeth cymharol fach o 3 phwynt canran ar gyfer asesiadau mewn Saesneg/ILlCh mewn ysgolion cyfrwng Saesneg). Er ei bod yn bosibl y gallai’r gwahaniaethau hyn adlewyrchu lefelau gallu is disgyblion sy’n ymgymryd â’r Cyfnod Sylfaen, mae archwilio’r data’n fanylach yn awgrymu bod achos y diffyg parhad hwn i weld yn gysylltiedig â’r nifer fwy o raddau yn y lefelau asesu sydd ar gael drwy’r

Cyfnod Sylfaen. Ymddengys bod argaeledd categorïau asesu manylach ar ben isaf yr ystod gallu wedi annog defnyddio categorïau asesu lefel is o gymharu ag ystod gymharol gyfyngedig y lefelau gallu sydd ar gael drwy asesiadau CA1.

5.7 Mae tystiolaeth ar gyfer y duedd hon am i lawr mewn asesiadau athrawon ym Mlwyddyn 2 ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, yn cael ei darparu drwy gymharu'r lefel barhad rhwng deilliannau yn CA1 i CA3 gyda'r lefel barhad rhwng deilliannau Asesiadau'r Cyfnod Sylfaen i CA2.

5.8 Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond disgyblion a fynychodd ysgolion Peilot y gellir gwneud asesiad ohonynt. Nid oes digon o amser wedi mynd heibio i'r disgyblion a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar i'w hasesu eto yn CA2.

5.9 Yn Nhablau 10 (mathemateg) ac 11 (Saesneg), gwelir cysylltiad amlwg rhwng cyrhaeddiad yn CA1 a CA2. Ar gyfer disgyblion a gyflawnodd Lefel 1 yn CA1, aeth mwyafrif ymlaen i gyflawni Lefel 3 (neu is) yn CA2. Mae perthynas debyg yn dod i'r amlwg rhwng CA1 Lefel 2 a CA2 Lefel 4, a rhwng CA1 Lefel 3 (neu uwch) a CA2 Lefel 5 (neu uwch).

5.10 Ymhlith y disgyblion hynny o ysgolion Peilot a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae lefelau parhad tebyg yn bodoli ymhlith y rhai a gyflawnodd Lefel 5 a Lefel 6. Hynny yw, fe wnaeth mwyafrif o ddisgyblion a gyflawnodd Lefel 5 yn y Cyfnod Sylfaen ymlaen i gyflawni Lefel 4 yn CA2. Mae perthynas debyg yn dod i'r amlwg rhwng Lefel 6 y Cyfnod Sylfaen a Lefel 5 (neu uwch) yn CA2.

**Tabl 9: Cymharu Asesiadau Cyfnod Allweddol 1 ac Asesiadau'r Cyfnod Sylfaen**

| | Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrwng Saesneg | | Cyfrwng Cymraeg | | |
| Lefel | Saesneg | Math | Cymraeg | Saesneg | Math |
| Wedi'u Datgymhwyso | 0.3 | 0.3 | | 0.4 | 0.3 |
| Heb ddyfarnu | 0.1 | 0.1 | 3.6 | 0.1 | 0.2 |
| Tuag at Lefel 1 | 5.3 | 3.4 | 2.7 | 2.8 | 1.5 |
| Lefel 1 | 17.5 | 15.4 | 10.6 | 16.4 | 13.8 |
| Lefel 2 | 63.9 | 67.9 | 68.1 | 68.6 | 67.7 |
| Lefel 3+ | 12.9 | 12.9 | 15.1 | 11.7 | 16.5 |
| % yn cyflawni'r Lefel ddisgwyliedig (2+) | 76.8 | 80.8 | 83.2 | 80.3 | 84.2 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** | **100** | **100** | **100** |
| **Sampl** | **3,957** | **3,957** | **730** | **917** | **1,360** |

| | Cyfnod Sylfaen | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfrwng Saesneg | | Cyfrwng Cymraeg | |
| Lefel | ILICh | DM | ILICh | DM |
| Tuag at Lefel 1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Lefel 1 | 0.3 | 0.3 | | |
| Lefel 2 | 0.9 | 1.0 | 0.1 | |
| Lefel 3 | 4.1 | 5.8 | 5.6 | 3.3 |
| Lefel 4 | 21.0 | 22.7 | 21.6 | 21.5 |
| Lefel 5 | 59.0 | 53.9 | 56.0 | 55.3 |
| Lefel 6 | 14.7 | 16.3 | 16.6 | 19.8 |
| % yn cyflawni'r Lefel ddisgwyliedig (5+) | 73.7 | 70.2 | 72.6 | 75.1 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** | **100** | **100** |
| **Sampl** | **3,362** | **3,362** | **1,070** | **1,070** |

**Tabl 10: Parhad Rhwng Asesiadau Mathemateg Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2**

| | Cyfnod Allweddol 2 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel<=3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Cyfanswm |
| **Cyfnod Allweddol 1** | | | | |
| Lefel 1 | 71.5 | 27.8 | 0.7 | 100 |
| Lefel 2 | 17.6 | 65.0 | 17.4 | 100 |
| Lefel 3 | 0.8 | 34.9 | 64.3 | 100 |
| Cyfanswm | 25.3 | 52.9 | 21.7 | 100 |
| **Cyfnod Sylfaen** | | | | |
| Lefel 1 (CS<=4) | 50.6 | 46.0 | 3.4 | 100 |
| Lefel 2 (CS 5) | 6.7 | 71.5 | 21.8 | 100 |
| Lefel 3 (CS6) | 0.0 | 30.9 | 69.2 | 100 |
| Cyfanswm | 19.2 | 56.9 | 23.9 | 100 |

**Tabl 11: Parhad Rhwng Asesiadau Saesneg Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2**

| | Cyfnod Allweddol 2 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel<=3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Cyfanswm |
| **Cyfnod Allweddol 1** | | | | |
| Lefel 1 | 67.4 | 32.6 | 0.0 | 100 |
| Lefel 2 | 15.5 | 68.4 | 16.0 | 100 |
| Lefel 3 | 0.0 | 37.8 | 62.2 | 100 |
| Cyfanswm | 20.6 | 57.9 | 21.5 | 100 |
| **Cyfnod Sylfaen** | | | | |
| Lefel 1 (CS<=4) | 46.6 | 50.2 | 3.2 | 100 |
| Lefel 2 (CS 5) | 5.6 | 65.2 | 29.2 | 100 |
| Lefel 3 (CS6) | 0.0 | 35.2 | 64.8 | 100 |
| Cyfanswm | 17.8 | 56.4 | 25.9 | 100 |

5.11 Fodd bynnag, mae cryfder y berthynas rhwng cyrhaeddiad ar Lefel 4 (neu is) y Cyfnod Sylfaen a Lefel 3 (neu is) yn CA2 yn wannach na'r berthynas a fodolai yn CA1. Aeth bron hanner y disgyblion a gyflawnodd Lefel 4 neu is yn y Cyfnod Sylfaen (llai na'r lefel ddisgwyliedig) ymlaen i gyflawni Lefel 4 yn CA2 (y lefel ddisgwyliedig). Byddai hyn yn ymhlygu fod gallu plant sy'n cael eu hasesu ar Lefel 4 y

Cyfnod Sylfaen yn fwy na gallu plant o'r ysgolion Peilot hyn a ddyrannwyd yn flaenorol i Lefel 1 yn CA1[9].

5.12 Sgîl-effaith arall hyn yw bod y rheiny a aseswyd ar Lefel 5 y Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol hefyd o gyflawni Lefel 5 yn CA2 o gymharu â'r rheiny a gafodd eu hasesu'n flaenorol ar Lefel 2 yn CA1. Mae'r patrymau hyn yn gyson ar draws Saesneg a mathemateg. Mae effaith cyfranogiad yn y Cyfnod Sylfaen ar ddeilliannau yn CA2 yn cael ei hystyried yn benodol nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

**Anghydraddoldeb mewn Deilliannau Blwyddyn 2**

5.13 Mae'r dadansoddiad blaenorol wedi dangos nad oes modd cymharu'r lefelau a gyflawnwyd drwy asesiadau athrawon yn CA1 yn syml â'r lefelau a gyflawnwyd drwy'r Cyfnod Sylfaen. Nid yw'n bosib felly rhoi asesiad syml ynglŷn â pha un a yw deilliannau Blwyddyn 2 wedi gwella o dan y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, er na ellir asesu gwahaniaethau mewn lefelau cyrhaeddiad, mae'n dal yn fuddiol ystyried pa un a yw anghydraddoldebau mewn deilliannau rhwng is-grwpiau poblogaeth wedi ehangu neu leihau ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mae Tablau 12 (mathemateg) ac 13 (Saesneg) yn dangos cyfran y disgyblion o fewn y tri math o ysgolion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig ym Mlwyddyn 2. Ar gyfer plant y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen, mae hyn yn ymwneud â CA1 Lefel 2 neu uwch. Ar gyfer y plant hynny a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae hyn yn ymwneud â Lefel 5 y CS neu uwch. Mae'r dadansoddiad wedi'i gyfyngu i ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn gwella'r lefel cymhareb rhwng meysydd pwnc CA1 a'r Cyfnod Sylfaen.

5.14 Mae'r dadansoddiad yn Nhablau 12 a 13 yn cadarnhau bod ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau'n Gynnar dan anfantais gymharol o

[9] Er bod dehongliad arall o'r cymariaethau hyn yn ymwneud ag 'effaith' y Cyfnod Sylfaen ar ddeilliannau CA2 diweddarach. Fodd bynnag, ystyrir hyn ymhellach nes ymlaen yn yr adroddiad.

gymharu ag ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf. Cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, roedd lefelau cyrhaeddiad ymhlith disgyblion yn yr ysgolion hyn yn is na'r lefelau ymhlith disgyblion mewn ysgolion heb fod yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn arbennig o amlwg ymhlith yr ysgolion Dechrau'n Gynnar, lle'r oedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn mathemateg a Saesneg 7-8 pwynt canran yn is na hynny a welwyd mewn ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf.

**Tabl 12: Anghydraddoldeb mewn Deilliannau Mathemateg Blwyddyn 2 – Canran yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig mewn Mathemateg, yn Ôl y Cam Cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | | Cam Cyflwyno Olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | |
| **Rhyw** | | | | | | |
| Gwryw | 83.8% | 71.1% | 77.7% | 67.5% | 85.9% | 85.4% |
| Benyw | 84.0% | 78.4% | 83.3% | 76.6% | 89.9% | 89.5% |
| Gwahaniaeth | -0.3% | -7.3% | -5.5% | -9.1% | -4.0% | -4.1% |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | |
| Gwyn | 75.2% | 64.8% | 76.6% | 79.4% | 84.5% | 83.7% |
| Heb fod yn wyn | 85.2% | 76.7% | 80.9% | 70.6% | 88.2% | 87.8% |
| Gwahaniaeth | -10.0% | -12.0% | -4.2% | 8.8% | -3.6% | -4.0% |
| **Statws PYDd** | | | | | | |
| Dim-PYDd | 88.1% | 78.2% | 86.6% | 79.5% | 90.7% | 90.5% |
| PYDd | 72.3% | 63.5% | 70.9% | 60.8% | 76.4% | 75.7% |
| Gwahaniaeth | 15.8% | 14.7% | 15.8% | 18.8% | 14.4% | 14.7% |
| **Statws AAA** | | | | | | |
| Dim AAA | 93.3% | 88.1% | 94.1% | 90.4% | 96.2% | 96.0% |
| AAA | 61.8% | 48.3% | 56.6% | 43.4% | 63.4% | 62.8% |
| Gwahaniaeth | 31.5% | 39.8% | 37.5% | 46.9% | 32.7% | 33.2% |
| **Cyfanswm** | **83.9%** | **74.6%** | **80.4%** | **71.9%** | **87.8%** | **87.4%** |

5.15 O ran gwahaniaethau rhwng is-grwpiau poblogaeth, gwelir yn gyffredinol fod merched yn perfformio'n well na bechgyn o ran y gyfran

sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym Mlwyddyn 2. Heb fod yn syndod, mae'r rheiny sy'n gymwys i gael PYDd a'r rheiny ag AAA yn llai tebygol o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym Mlwyddyn 2. Ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, ymddengys bod y gwahaniaethau rhwng y rhywiau, a'r anfantais gymharol a wynebir gan y rhai ag AAA, yn ehangu mewn mathemateg a Saesneg, ac ymhlith disgyblion mewn ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau'n Gynnar. Mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar, mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd i ddangos bod yr anfantais gymharol a wynebir gan ddisgyblion heb fod yn wyn yn cael ei gwrth-droi ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, er y cydnabyddir fod nifer y disgyblion heb fod yn wyn a asesir drwy'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar yn gymharol fach, hyd yn hyn (n=165).


**Tabl13: Anghydraddoldeb mewn Deilliannau Saesneg Blwyddyn 2 – Canran yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig mewn Saesneg**


| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | | Cam Cyflwyno Olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | |
| **Rhyw** | | | | | | |
| Gwryw | 77.4% | 62.8% | 70.9% | 59.3% | 79.7% | 79.1% |
| Benyw | 83.3% | 80.5% | 82.2% | 77.8% | 89.1% | 88.7% |
| Gwahaniaeth | -5.9% | -17.7% | -11.3% | -18.5% | -9.4% | -9.6% |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | |
| Gwyn | 69.7% | 60.4% | 75.3% | 75.8% | 80.0% | 79.3% |
| Heb fod yn wyn | 82.0% | 73.6% | 76.3% | 67.0% | 84.7% | 84.2% |
| Gwahaniaeth | -12.3% | -13.2% | -1.1% | 8.7% | -4.7% | -5.0% |
| **Statws PYDd** | | | | | | |
| Dim-PYDd | 84.2% | 75.3% | 84.1% | 77.2% | 88.0% | 87.8% |
| PYDd | 70.0% | 58.7% | 64.3% | 55.3% | 69.3% | 68.8% |
| Gwahaniaeth | 14.2% | 16.6% | 19.7% | 21.9% | 18.8% | 19.0% |
| **Statws AAA** | | | | | | |
| Dim AAA | 91.4% | 87.3% | 91.9% | 87.9% | 94.8% | 94.6% |
| AAA | 54.6% | 39.9% | 49.1% | 38.0% | 53.3% | 52.8% |
| Gwahaniaeth | 36.8% | 47.5% | 42.8% | 50.0% | 41.5% | 41.8% |
| **Cyfanswm** | **80.4%** | **71.3%** | **76.2%** | **68.3%** | **84.2%** | **83.8%** |

5.16 I archwilio'r anghydraddoldebau hyn yn fanylach, mae Ffigur 4 yn cyflwyno amcangyfrifon o'r tebygolrwydd cymharol y bydd disgyblion mewn ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau'n Gynnar yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg a mathemateg yn ystod eu hasesiadau Blwyddyn 2. Cynhelir asesiadau ar wahân ar gyfer disgyblion o ysgolion Dechrau'n Gynnar ac ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf a gafodd eu hasesu drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol (lle Lefel 2 oedd y lefel ddisgwyliedig) ac ar gyfer y rhai a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen (lle Lefel 5 yw'r lefel ddisgwyliedig). Dangosir y canlyniadau ar gyfer y ddau grŵp hyn o ddisgyblion ochr yn ochr yn y ffigurau fel bod modd asesu effaith cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar yr anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng grwpiau gwahanol. Nodwyd eisoes fod y diffyg parhad mewn asesiadau yn golygu mai dim ond asesiad dangosol y gall dadansoddiad o'r fath ei roi o ba un a yw'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng grwpiau disgyblion gwahanol wedi newid neu beidio o ganlyniad i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

5.17 Mae'r dadansoddiad yn datgelu bod graddfa'r lefelau cyrhaeddiad is a ddangosir gan y disgyblion hynny sydd ag AAA neu sy'n gymwys i gael PYDd yn aros heb eu newid ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Ymddengys bod cyrhaeddiad uwch merched yn Saesneg wedi ehangu ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Ymddengys, fodd bynnag, fod y lefelau cyrhaeddiad uwch yn Saesneg ymhlith plant gwyn wedi lleihau yn asesiadau'r Cyfnod Sylfaen.

**Ffigur 4: Anghydraddoldebau mewn Cyrhaeddiad Blwyddyn 2: Ysgolion Peilot ac Ysgolion Dechrau'n Gynnar**



# 6 Deilliannau Cymharol Disgyblion y Cyfnod Sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 2

## Cyflwyniad

6.1 Mae'r Bennod olaf hon yn ystyried pa yw a yw cyfranogi yn y Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â deilliannau gwahanol fel y'u haseswyd yn CA2. Cynhelir asesiadau CA2 ym Mlwyddyn 6, pan fydd plant yn 10 neu'n 11 oed. Mantais archwilio deilliannau CA2 yw bod *pob* plentyn yn cael ei asesu yn gyson, pa un a yw wedi'i asesu drwy'r Cyfnod Sylfaen ym Mlwyddyn 2 neu beidio. Nid yw cymariaethau rhwng disgyblion y Cyfnod Sylfaen a disgyblion nad ydynt yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu rhwystro felly gan newidiadau mewn dulliau asesu. Yn ogystal, os yw'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen yn cymryd cyfnod mwy o amser i'w gwireddu (h.y. pan fydd y plant yn hŷn), efallai mai dim ond drwy archwilio data CA2 y gellir cipio'r effeithiau hyn. Fodd bynnag, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, anfantais archwilio deilliannau CA2 yw mai dim ond dwy garfan o ddisgyblion o leoliadau Peilot a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen sydd wedi'u hasesu yn CA2.

6.2 Disgrifir y sampl sydd ar gael yn Nhabl 14. Nid oes unrhyw blant o'r ysgolion Dechrau'n Gynnar wedi'u hasesu yn CA2 eto. Mae'r asesiadau CA2 cyntaf o ddisgyblion a gafodd asesiadau'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar i'w cwblhau yn ystod blwyddyn academaidd 2013/14. Dim ond 862 o ddisgyblion CS sydd yn y ddwy garfan o'r lleoliadau Peilot a aseswyd yn CA2.

**Tabl 14: Argaeledd Deilliannau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Disgyblion y Cyfnod Sylfaen, yn Ôl Cam Cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | | Cam Cyflwyno Olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | |
| 2004/05 | 669 | 0 | 979 | | 32,874 | 34,522 |
| 2005/06 | 350 | 265 | 971 | | 31,926 | 33,512 |
| 2006/07 | 52 | 597 | 969 | | 30,702 | 32,320 |
| **Cyfanswm** | **1,071** | **862** | **2,919** | | **95,502** | **100,354** |

6.3 Mae data asesiadau CA2 ar gael ar gyfer 265 o ddisgyblion a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn 2005/06, ac ar gyfer 597 o ddisgyblion a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn 2006/07. Felly, mae cyfanswm o 862 o ddisgyblion o ysgolion Peilot sydd wedi'u hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen wedi'u hasesu yn CA2 hefyd. Bydd y ffigur hwn yn cynyddu dros amser wrth i garfannau olynol o ddisgyblion o ysgolion Peilot symud ymlaen drwy CA2.

6.4 O ran darparu grŵp rheoli ar gyfer gallu asesu'r deilliannau hyn yn ei erbyn, mae data CA2 ar gael ar gyfer rhyw 1,000 o ddisgyblion o ysgolion Peilot a gafodd eu hasesu'n flaenorol yn erbyn CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Oherwydd bod y Cyfnod Sylfaen wedi'i gyflwyno fesul cam ymhlith ysgolion Peilot, cynhyrchwyd Asesiadau CA1 ac Asesiadau'r Cyfnod Sylfaen yn ystod 2005/06. Bydd y plant hyn, fodd bynnag, wedi mynychu ysgolion gwahanol. Cafeat pwysig i'r dadansoddiad sy'n dilyn, felly, yw mai dim ond deilliannau'r ddwy garfan gyntaf o ddisgyblion a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen y gellir eu cymharu. Hefyd, dim ond deilliannau'r plant hyn a'r deilliannau a gyflawnwyd ymhlith disgyblion o grwpiau blwyddyn union o'u blaen y gall y dadansoddiad eu cymharu. Os oedd wedi cymryd amser i'r Cyfnod Sylfaen gael ei roi ar waith yn llawn yn yr ysgolion hyn, yna nid yw'n glir pa wahaniaethau y byddai disgwyl eu gweld yn realistig o ran deilliannau CA2.

6.5 Yn olaf, mae cafeat pwysig i'r dadansoddiad sy'n dilyn i'r graddau bod yr holl ddata demograffig ac economaidd-gymdeithasol yn ymwneud ag amgylchiadau disgyblion fel y'u harsylwyd ym Mlwyddyn 2. Er nad yw hyn yn broblem o ran archwilio effeithiau nodweddion sefydlog mewn amser ar gyrhaeddiad yn CA2 (h.y. rhyw, ethnigrwydd), yn amlwg efallai nad yw rhai o'r mesurau a ddeilliwyd o ddata Blwyddyn 2 yn adlewyrchu amgylchiadau'r disgyblion hyn yn gywir ar yr adeg pan gawsant eu hasesiadau CA2 ryw bedair blynedd yn ddiweddarach. Y ffactorau mwyaf amlwg yn hyn o beth yw cymhwyster i gael PYDd a statws AAA fel y'u mesurir ym Mlwyddyn 2. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad CA2 yn bodoli wrth wahaniaethu disgyblion yn ôl y mesurau hyn sydd 'wedi dyddio'. Mae hyn yn dangos bod y mesurau hyn yn dal i wneud cyfraniad dilys o ran deall deilliannau disgyblion yn CA2. Fodd bynnag, bwriadwn ddiweddaru'r dadansoddiad hwn yn y dyfodol drwy ymgorffori gwybodaeth 'ddiweddar' am nodweddion unigol disgyblion yn ystod CA2, gan alluogi cynnwys amgylchiadau presennol ac amgylchiadau blaenorol disgyblion yn y dadansoddiad.

**Data Asesiadau Cyfnod Allweddol 2**

6.6 Mae Tablau 15, 16 ac 17 yn rhoi gwybodaeth am lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn CA2 o ysgolion gwahanol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y drefn honno. Mae asesiadau'n ymwneud â Chymraeg wedi'u hepgor o'r dadansoddiad hwn oherwydd y meintiau sampl cymharol fach sy'n gysylltiedig â'r maes pwnc hwn.

6.7 Cyfeiria'r data at gyfran y disgyblion a gyflawnodd Lefel 4 neu uwch; Lefel 4 yw'r lefel cyrhaeddiad cyfartalog a ddisgwylir gan ddisgybl Blwyddyn 6 erbyn diwedd CA2.

**Tabl 15: Canran yn Cyflawni Lefel 4 neu Uwch yn Saesneg CA2, yn ôl Cam Cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | Cam Cyflwyno Olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS Allan | |
| **Rhyw** | | | | | |
| Gwryw | 70.8% | 74.6% | 67.9% | 78.5% | 78.0% |
| Benyw | 80.0% | 87.8% | 80.8% | 88.3% | 88.0% |
| Gwahaniaeth | -9.2% | -13.2% | -12.9% | -9.8% | -9.9% |
| **Ethnigrwydd** | | | | | |
| Heb fod yn wyn | 83.5% | 80.5% | 77.7% | 82.8% | 82.5% |
| Gwyn | 74.3% | 81.3% | 73.7% | 83.3% | 82.9% |
| Gwahaniaeth | 9.1% | -0.9% | 4.0% | -0.5% | -0.4% |
| **Statws PYDd (Ym Mlwyddyn 2)** | | | | | |
| Dim-PYDd | 78.5% | 83.9% | 81.0% | 86.8% | 86.6% |
| PYDd | 65.2% | 70.3% | 62.7% | 67.5% | 67.2% |
| Gwahaniaeth | 13.3% | 13.7% | 18.2% | 19.3% | 19.3% |
| **Statws AAA (Ym Mlwyddyn 2)** | | | | | |
| Dim-AAA | 85.5% | 93.5% | 88.5% | 92.8% | 92.6% |
| AAA | 48.9% | 56.2% | 47.3% | 53.5% | 53.2% |
| Gwahaniaeth | 36.6% | 37.3% | 41.2% | 39.3% | 39.4% |
| **Cyfanswm** | **75.4%** | **81.2%** | **74.1%** | **83.2%** | **82.9%** |

**Tabl 16: Canran yn Cyflawni Lefel 4 neu uwch ym Mathemateg CA2, yn ôl Cam Cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | Cam Cyflwyno Olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS Allan | |
| **Rhyw** | | | | | |
| Gwryw | 78.5% | 80.3% | 75.3% | 82.6% | 82.3% |
| Benyw | 79.2% | 83.6% | 79.4% | 86.3% | 86.0% |
| Gwahaniaeth | -0.7% | -3.3% | -4.1% | -3.8% | -3.7% |
| **Ethnigrwydd** | | | | | |
| Heb fod yn wyn | 84.3% | 79.3% | 83.4% | 83.3% | 83.3% |
| Gwyn | 78.1% | 82.3% | 76.5% | 84.5% | 84.2% |
| Gwahaniaeth | 6.2% | -3.0% | 6.9% | -1.2% | -0.9% |
| **Statws PYDd (Ym Mlwyddyn 2)** | | | | | |
| Dim-PYDd | 82.5% | 85.6% | 83.6% | 87.6% | 87.4% |
| PYDd | 67.0% | 67.3% | 66.7% | 70.3% | 70.0% |
| Gwahaniaeth | 15.6% | 18.3% | 16.9% | 17.3% | 17.4% |
| **Statws AAA (Ym Mlwyddyn 2)** | | | | | |
| Dim-AAA | 89.0% | 92.6% | 90.3% | 93.1% | 92.9% |
| AAA | 52.2% | 60.4% | 53.0% | 57.4% | 57.2% |
| Gwahaniaeth | 36.8% | 32.2% | 37.3% | 35.7% | 35.8% |
| **Cyfanswm** | **78.8%** | **82.0%** | **77.3%** | **84.4%** | **84.1%** |

**Tabl 17: Canran yn Cyflawni Lefel 4 neu Uwch mewn Gwyddoniaeth CA2, yn ôl Cam Cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | Cam Cyflwyno Olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | CS Allan | CS i Mewn | CS Allan | CS Allan | |
| **Rhyw** | | | | | |
| Gwryw | 81.5% | 82.6% | 79.2% | 85.6% | 85.3% |
| Benyw | 82.6% | 89.3% | 83.7% | 89.8% | 89.5% |
| Gwahaniaeth | -1.1% | -6.7% | -4.5% | -4.2% | -4.2% |
| **Ethnigrwydd** | | | | | |
| Heb fod yn wyn | 89.6% | 82.6% | 89.5% | 86.9% | 87.0% |
| Gwyn | 81.1% | 86.4% | 80.4% | 87.7% | 87.4% |
| Gwahaniaeth | 8.5% | -3.8% | 9.1% | -0.8% | -0.4% |
| **Statws PYDd (Ym Mlwyddyn 2)** | | | | | |
| Dim-PYDd | 85.7% | 87.6% | 87.4% | 90.6% | 90.5% |
| PYDd | 70.3% | 79.1% | 71.3% | 74.4% | 74.3% |
| Gwahaniaeth | 15.4% | 8.5% | 16.1% | 16.2% | 16.2% |
| **Statws AAA (Ym Mlwyddyn 2)** | | | | | |
| Dim-AAA | 90.6% | 95.0% | 93.1% | 95.2% | 95.1% |
| AAA | 59.4% | 67.5% | 59.5% | 64.0% | 63.8% |
| Gwahaniaeth | 31.2% | 27.5% | 33.7% | 31.2% | 31.3% |
| **Cyfanswm** | **82.1%** | **86.0%** | **81.4%** | **87.6%** | **87.4%** |

6.8 Daw nifer o themâu i'r amlwg o'r dadansoddiad hwn. Yn gyntaf, mae lefelau cyrhaeddiad yn CA2 ymhlith plant a fynychodd ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau'n Gynnar yn is na'r lefelau cyrhaeddiad a welwyd ymhlith poblogaeth ehangach disgyblion CA2 yng Nghymru. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â'r hyn a wyddwn am nodweddion cymharol ddifreintiedig plant a fynychodd yr ysgolion hyn, gan gynnwys lefelau uwch o ran hawl i gael PYDd, a chyfran uwch yr asesir bod ganddynt AAA yn CA1.

6.9 Yn ail, o ran effaith y Cyfnod Sylfaen ar ddeilliannau CA2, mae'n ddiddorol nodi bod lefelau cyrhaeddiad disgyblion o ysgolion Peilot a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen, yn uwch na lefelau cyrhaeddiad disgyblion a gafodd eu hasesu drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r lefel gwelliant yn asesiadau CA2 yn gynnydd o

chwe phwynt canran yng nghyfran y disgyblion sy’n cyflawni Lefel 4 neu uwch yn Saesneg; cynnydd o dri phwynt canran yn y gyfran sy’n cyflawni Lefel 4 neu uwch ym mathemateg; a chynnydd o bedwar pwynt canran yn y gyfran sy’n cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn gwyddoniaeth.

6.10 Yn drydydd, o ran anghydraddoldeb mewn deilliannau, rhaid pwysleisio mai ond mewn perthynas â nifer gyfyngedig o blant a fynychodd ysgolion Peilot yn unig y gellir gwneud cymariaethau’n ymwneud â chyn ac ar ôl cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, mae themâu tebyg yn dod i’r amlwg i’r rhai a nodwyd yn y dadansoddiad o ddeilliannau CA1. Yn benodol, ar draws y tri maes pwnc, mae’r lefelau cyrhaeddiad uwch ar gyfer merched yn CA2 yn ehangu ymhlith y rheiny a gafodd eu hasesu drwy’r Cyfnod Sylfaen ym Mlwyddyn 2.

6.11 Fodd bynnag, mae’r lefelau cyrhaeddiad is yn gyffredinol a ddangoswyd gan blant gwyn yn CA2 yn cael eu gwrth-droi, gan ddynodi mai ymhlith plant gwyn oedd y gwelliannau mwyaf a ddangoswyd ymhlith plant o ysgolion Peilot. Nodir bod yr effaith hon yn groes i’r effaith a welwyd yn CA1, lle gwnaeth cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen wella safle cymharol disgyblion heb fod yn wyn. Fodd bynnag, fe allai’r canfyddiad hwn fod yn adlewyrchiad syml o’r nifer gymharol fach o ddisgyblion heb fod yn wyn yn mynychu ysgolion Peilot. Caiff arwyddocâd ystadegol y canfyddiad hwn ei archwilio’n fwy ffurfiol yn yr adrannau sy’n dilyn.

6.12 Yn olaf, nid ymddengys bod cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen wedi cael effaith ar y lefelau cyrhaeddiad is a ddangoswyd ymhlith disgyblion â hawl i gael PYDd.

**Amcangyfrif Deilliannau Cymharol Disgyblion y Cyfnod Sylfaen**

6.13 Gall cymariaethau a wneir rhwng grwpiau disgyblion gwahanol gael eu drysu gan amrywiaeth o berthnasoedd sylfaenol sy’n cyfuno ar yr un

pryd i greu’r gwahaniaethau a welwyd rhwng is-grwpiau poblogaeth. Gallai gwahaniaethau rhwng tri cham gwahanol rhoi’r Cyfnod Sylfaen ar waith arwain at amryw o ffactorau, fel nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol disgyblion sy’n mynychu’r ysgolion gwahanol hyn. I archwilio hyn, cynhaliwyd dadansoddiad amlamrywedd er mwyn amcangyfrif y gwahaniaethau ‘wedi’u haddasu’ mewn cyrhaeddiad CA2 rhwng y tri math gwahanol o ysgolion, ar ôl ystyried y nodweddion eraill a oedd i’w gweld. Defnyddiwyd atchweliad logistaidd i archwilio pa ffactorau sy’n gysylltiedig â’r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn cyflawni Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) neu uwch yn CA2. Cyflwynir canlyniadau’r dadansoddiad hwn yn Nhabl 18. Defnyddir sêr i ddynodi presenoldeb perthnasoedd sydd ag arwyddocâd ystadegol ar lefelau arwyddocâd 5% (**) a 10% (*).

**Tabl 18: Amcangyfrifon Amlamrywedd o’r Tebygolrwydd o Gyflawni Lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2**

| Tebygolrwydd cymharol cyflawni Lefel 4 CA2[a] | Saesneg | Mathemateg | Gwyddoniaeth |
|---|---|---|---|
| **Sampl Lawn** | **Model 1** | **Model 2** | **Model 3** |
| Cam Peilot: CS Allan | cyf. | cyf. | cyf. |
| Cam Peilot: CS i Mewn | 69.7** | 38.2** | 56.3 |
| Cam Dechrau’n Gynnar: CS Allan | 65.7** | 52.7** | 71.2 |
| Cam Dechrau’n Gynnar: CS i Mewn | am. | am. | am. |
| Cam Cyflwyno Olaf: CS Allan | 70.8** | 42.3** | 57.3 |
| Cam Cyflwyno Olaf: CS i Mewn | am. | am. | am. |
| **Cam Peilot yn Unig** | **Model 4** | **Model 5** | **Model 6** |
| Cam Peilot: CS Allan | cyf | cyf | cyf |
| Cam Peilot: I Mewn | 53.7** | 31.8* | 43.7* |

a % gwahaniaeth pwyntiau o gymharu â disgyblion cyn-CS mewn Ysgolion Peilot
* p<0.10, ** p<0.05

6.14 Yr hyn sydd i’w weld yn amlwg yw’r unffurfedd cymharol mewn deilliannau CA2 ar draws y grwpiau disgyblion gwahanol, ac eithrio’r lefelau cyrhaeddiad sylweddol is a ddangoswyd gan ddisgyblion mewn ysgolion Peilot cyn cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen.

6.15 Mae cymariaethau a wnaed *o fewn* ysgolion Peilot yn dynodi bod disgyblion a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen 54% yn fwy tebygol o gyflawni Lefel 4 yn CA2 yn Saesneg; bod 32% yn fwy tebygol o gyflawni Lefel 4 mewn mathemateg (er mai ar y lefel 10% un unig y mae hynny'n arwyddocaol) a bod 44% yn fwy tebygol o gyflawni Lefel 4 mewn gwyddoniaeth (eto ar y lefel arwyddocâd 10%) ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion eraill.

6.16 Er y gellid priodoli gwelliannau o'r fath i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion hyn, rhaid nodi y gallai fod rhesymau eraill dros berfformiad cymharol wael disgyblion a fynychodd ysgolion Peilot cyn cyflwyno asesiadau'r Cyfnod Sylfaen.

6.17 I roi hyn mewn cyd-destun, amcangyfrifir hefyd fod disgyblion yn mynychu ysgolion Dechrau'n Gynnar cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn dangos lefelau cyrhaeddiad uwch yn CA2 o gymharu â disgyblion mewn ysgolion Peilot cyn y Cyfnod Sylfaen.

6.18 I archwilio effaith gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn fanylach, cymhwyswyd technegau Dadansoddiad Effaith Gwrthffeithiol i'r dadansoddiad o ddeilliannau CA2.

6.19 Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2, nid oedd yr ysgolion Peilot a'r ysgolion Dechrau'n Gynnar yn gynrychioliadol o boblogaeth ehangach ysgolion. Felly, defnyddiwyd methodoleg Cydweddu Sgôr Tebygolrwydd i ddewis plant o'r boblogaeth ehangach o blant nad oeddent yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen, fel y gellir gwneud cymariaethau tebyg wrth debyg rhwng plant mewn ysgolion Peilot a phlant tebyg fel arall o ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf (gweler Pennod 3 ac Atodiad B am drosolwg o gydweddu ystadegol).

6.20 Cynhelir y dadansoddiad mewn dau gam. Yn gyntaf, gwneir cymhariaeth 'waelodlin' o gyrhaeddiad CA2 drwy gymharu deilliannau plant a fynychodd yr ysgolion Peilot yn 2004/05 a 2005/06, ac na

chafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen, â phlant o ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf yn yr un flwyddyn. Nod y dadansoddiad gwaelodlin yw nodi unrhyw wahaniaethau yn lefelau cyrhaeddiad y disgyblion hyn cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a allai fod oherwydd nodweddion disgyblion neu ysgolion anweladwy fel arall na ellir eu hystyried yn y dadansoddiad ystadegol. Yna ailadroddir y dadansoddiad PSM ar gyfer plant a fynychodd yr ysgolion Peilot yn 2005/06 a 2006/07 ond a *gafodd* eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen (ni chafodd unrhyw blant Blwyddyn 2 eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Peilot yn ystod 2004/05). Caiff deilliannau CA2 y plant hyn eu cymharu wedyn â sampl wedi'i chydweddu o blant o ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf. Dylai deilliannau cymharol yn CA2 wella ymhlith yr ail grŵp hyn os yw'r Cyfnod Sylfaen wedi cyfrannu at ddeilliannau gwell ymhlith Blwyddyn 6.

6.21 Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn Nhabl 19. Fel o'r blaen, mae nifer o dechnegau a rhagdybiaethau y gellir eu cymhwyso wrth ymgymryd â dadansoddiad PSM, ac felly darperir ystod o amcangyfrifon. Mae sêr yn dynodi arwyddocâd ystadegol ar lefelau 1% (***), 5% (**) a 10% (*) yn y drefn honno.

6.22 Ar draws pob un o'r tri maes pwnc a archwiliwyd, mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith wedi cyfrannu at welliant cymharol mewn deilliannau CA2 ymhlith disgyblion o'r ysgolion Peilot. Yn Saesneg, ymddengys bod y gyfran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn CA2 yn cynyddu o ryw 5-11 o bwyntiau canran. Ymddengys bod y canlyniadau ar gyfer Saesneg yn dangos bod deilliannau is mewn gwirionedd gan ddisgyblion yn yr ysgolion hyn cyn y Cyfnod Sylfaen, a bod y gwahaniaeth negyddol hwn wedi'i wrth-droi ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

6.23 Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r dystiolaeth dros newid mewn deilliannau CA2 yn wannach. Mewn mathemateg, amcangyfrifir bod y gwelliant yn 6-7 o bwyntiau canran, er mai ond ar gyfer

dadansoddiad PSM y gwelir hyn sy’n caniatáu ar gyfer disodli cofnodion o fewn y grŵp rheoli. Mewn gwyddoniaeth, amcangyfrifir mai 1-4 o bwyntiau canran yw’r gwelliant.

**Tabl 19: Dadansoddiad PSM o Effaith y Cyfnod Sylfaen ar Ddeilliannau Cyfnod Allweddol 2**

| | Caliper | | |
|---|---|---|---|
| | **Dim** | **0.001** | **0.0001** |
| **Saesneg** | | | |
| *2007/08* | | | |
| Heb ddisodli | -0.03 | -0.03* | -0.03* |
| | 938 | 913 | 871 |
| Gyda disodli | -0.03 | -0.03 | -0.03 |
| | 938 | 925 | 899 |
| *2009/10* | | | |
| Heb ddisodli | 0.02 | 0.03 | 0.02 |
| | 804 | 786 | 740 |
| Gyda disodli | 0.08* | 0.08* | 0.08* |
| | 804 | 804 | 768 |
| **Mathemateg** | | | |
| *2007/08* | | | |
| Heb ddisodli | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | 938 | 912 | 878 |
| Gyda disodli | 0.05 | 0.04 | 0.04 |
| | 938 | 925 | 911 |
| *2009/10* | | | |
| Heb ddisodli | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | 804 | 788 | 722 |
| Gyda disodli | 0.11** | 0.11** | 0.12** |
| | 804 | 804 | 747 |
| **Gwyddoniaeth** | | | |
| *2007/08* | | | |
| Heb ddisodli | 0.02 | 0.01 | 0.01 |
| | 937 | 909 | 877 |
| Gyda disodli | 0.01 | 0.00 | 0.00 |
| | 937 | 925 | 900 |
| *2009/10* | | | |
| Heb ddisodli | 0.05** | 0.05** | 0.04** |
| | 804 | 787 | 732 |
| Gyda disodli | 0.02 | 0.02 | 0.01 |
| | 804 | 804 | 758 |

Gwahaniaeth Pwyntiau % Amcan o Gymharu â’r Grŵp Rheoli wedi’i Gydweddu
* p<0.10, ** p<0.05, *** p<0.01

**Anghydraddoldebau mewn Deilliannau Cyfnod Allweddol 2**


6.24 Mae rhan olaf y Bennod hon yn cyflwyno amcangyfrifon a ddeilliwyd o'r dadansoddiad amlamrywedd yn ymwneud ag anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad CA2 sy'n bodoli rhwng is-grwpiau disgyblion gwahanol yn mynychu ysgolion Peilot. Y brif ystyriaeth yw pa un a yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion hyn wedi cyfrannu at newidiadau yn y gwahaniaethau amcan mewn deilliannau CA2 – h.y. o ran lleihau anghydraddoldebau blaenorol. Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad yn Ffigur 5.

6.25 Rhaid nodi bod nifer y disgyblion y seiliwyd y dadansoddiad hwn arni yn gymharol fach; oddeutu 1,000 o ddisgyblion Cyn y Cyfnod Sylfaen a 900 o ddisgyblion ar Ôl y Cyfnod Sylfaen. Felly, fe allai'r meintiau sampl bach sy'n gysylltiedig ag is-grwpiau poblogaeth penodol gyfrannu at rywfaint o ansefydlogrwydd ym maint gwahaniaethau amcan, yn enwedig ymhlith disgyblion heb fod yn wyn. Er hyn, datgela'r dadansoddiad fod y patrymau anghydraddoldeb a fodolai cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn parhau ar ôl ei gyflwyno.

6.26 Yn unol â'r dadansoddiad o ddeilliannau CA1, ymddengys bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod y gwahaniaethau mewn deilliannau mewn Saesneg CA2 ymhlith merched a bechgyn yn ehangu ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Ymddengys bod y canlyniadau CA2 salach a ddangoswyd gan ferched mewn gwyddoniaeth yn cael eu gwrth-droi ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (er nad oes arwyddocâd ystadegol i'r un o'r gwahaniaethau amcan rhwng y rhywiau mewn gwyddoniaeth).

6.27 Mae'r lefelau cyrhaeddiad cymharol is a welwyd ymhlith y rhai yn gymwys i gael PYDd yn aros heb newid ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

**Ffigur 5: Anghydraddoldebau mewn Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 2: Ysgolion Peilot**



# 7 Casgliadau

7.1 Mae'r adroddiad wedi cyflwyno canlyniadau dadansoddiad sydd wedi ceisio cymharu'r deilliannau ar gyfer plant a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen â deilliannau plant a ddilynodd CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn flaenorol. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'n ymwneud â nifer o ddeilliannau allweddol; gan gynnwys (a) cyfraddau a natur absenoliaeth, (b) asesiadau athrawon a wneir ym Mlwyddyn 2 (h.y. asesiadau sy'n cael eu cynnal ar ddiwedd CA1 neu'r Cyfnod Sylfaen) a (c) asesiadau athrawon a wneir ar ddiwedd CA2 (h.y. ym Mlwyddyn 6). Ar y cychwyn, mae'n bwysig pwysleisio cyfyngiadau'r dadansoddiad. Yn gyntaf, bydd effaith y Cyfnod Sylfaen yn arwain at newidiadau mewn ystod eang o ddeilliannau na ellir eu cipio gan fesurau deilliannau 'gwaelodlin' cyfyng eu diffiniad a gesglir drwy asesiadau athrawon. Yn ail, er mai nod yr adroddiad oedd manteisio ar y broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen fesul cam fel y gellir gwneud cymariaethau 'tebyg wrth debyg', mae cynnwys a strwythur y dadansoddiad wedi'u pennu yn y pen draw gan ddata sydd ar gael. Mae argaeledd data ar absenoliaeth o 2007/08, newidiadau yn y ffordd y cofnodir cyrhaeddiad ym Mlwyddyn 2 a gyflwynwyd o dan y Cyfnod Sylfaen, a'r amser cyfyngedig sydd wedi mynd heibio hyd yn hyn ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, bob un ohonynt wedi llywio cwmpas y dadansoddiad.

7.2 Gan gofio'r cafeatau hyn, daw nifer o ganfyddiadau allweddol i'r amlwg. Un o nodweddion pwysig y Cyfnod Sylfaen oedd lleihau anghydraddoldebau mewn deilliannau cymdeithasol a deilliannau addysg. Fodd bynnag, datgela'r dadansoddiad nad yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â newidiadau yn y gwahaniaethau mewn deilliannau rhwng is-grwpiau poblogaeth, fel y rheiny a ddiffinnir gan hil, ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol. Gwelir parhad yn yr anghydraddoldebau o ran absenoliaeth a chyrhaeddiad. Mae'r grwpiau hynny sy'n dangos yr anfanteision mwyaf o ran deilliannau

addysgol yn cynnwys y rhai sy'n gymwys i gael PYDd a'r rhai sydd ag AAA. Hyd yn oed ymhlith y grwpiau hyn, lle mae'r potensial mwyaf i leihau anghydraddoldebau, dangosir bod y patrymau a fodolai cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn parhau ar ôl ei gyflwyno.

7.3 O ran absenoliaeth, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael hyd yma yn awgrymu bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gysylltiedig â gwelliant yn lefelau presenoldeb disgyblion. Mae lefelau presenoldeb cyffredinol, wedi'u mesur o ran cyfran y sesiynau y mae disgyblion yn yr ysgol, yn aros heb newid ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod y nifer yr absenoldebau anawdurdodedig wedi cynyddu mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Yn absenoldeb unrhyw wahaniaethau mewn lefelau presenoldeb gwirioneddol, fe allai'r canfyddiad hwn ddynodi'r posibilrwydd bod agweddau rhieni tuag at absenoliaeth ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi newid. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiad hwn ymhlith ysgolion Dechrau'n Gynnar yn cael ei ailadrodd ymhlith y boblogaeth ysgolion ehangach. Ymhlith ysgolion y Cam Cyflwyno Olaf, fe wnaeth absenoliaeth anawdurdodedig ymhlith disgyblion Blwyddyn 1 ostwng ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Er na chadarnheir hynny gan y dadansoddiad o anghydraddoldebau, mae'r canfyddiad ar gyfer ysgolion Dechrau'n Gynnar yn awgrymu pwysigrwydd posibl parhau i fonitro absenoldeb anawdurdodedig mewn ysgolion sydd mewn ardaloedd cymharol amddifad.

7.4 O ran asesiadau athrawon, nid oedd y dadansoddiad yn gallu pennu pa un a yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi effeithio ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion ym Mlwyddyn 2. Yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, daeth newidiadau yn y dulliau ar gyfer asesu disgyblion, o ran y meysydd pwnc a'r lefelau ar gyfer graddio disgyblion. Er mai'r bwriad oedd y byddai rhywfaint o gysondeb rhwng y ddwy gyfundrefn asesu, gyda'r lefel cyrhaeddiad disgwyliedig yn CA1 (Lefel 2) yn gyfwerth â'r lefel cyrhaeddiad disgwyliedig o dan y Cyfnod Sylfaen (Lefel 5), dangoswyd nad felly oedd hi yn ymarferol. Ymddengys bod y nifer fwy

o raddau yn y lefelau asesu sydd ar gael drwy'r Cyfnod Sylfaen wedi annog gwneud defnydd amlach o gategorïau asesu lefel is o gymharu ag ystod gymharol gyfyngedig y lefelau gallu sydd ar gael i athrawon wrth ymgymryd ag asesiadau CA1.

7.5 Rhaid cydnabod bod newidiadau mewn dulliau asesu ynddynt eu hunain yn agwedd bwysig ar y Cyfnod Sylfaen, lle disodlwyd yr ymagwedd fwy ffurfiol, yn seiliedig ar gymhwysedd a oedd yn gysylltiedig â Chwricwlwm Cenedlaethol blaenorol CA1 gan ymagwedd fwy datblygiadol, arbrofol at addysgu a dysgu, sy'n seiliedig ar chwarae. Fodd bynnag, mae'r newidiadau hyn hefyd yn ei gwneud hi'n anodd defnyddio data asesiadau athrawon wrth gymharu deilliannau ym Mlwyddyn 2. I'r perwyl hwn, bydd dadansoddi Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn bwysig felly wrth bennu pa un a yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi cael effaith amlwg ar ddatblygiad gwybyddol plant ifanc yng Nghymru.

7.6 Oherwydd y diffyg parhad yn y dulliau asesu ym Mlwyddyn 2 yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, asesiadau athrawon yn CA2 yw'r unig sail gyson i allu cymharu deilliannau addysgol disgyblion arni gan ddefnyddio'r cofnodion gweinyddol a gynhwysir yng Nghronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Fodd bynnag, caiff y dadansoddi hwn ei rwystro gan argaeledd data ar ddeilliannau CA2. Cynhelir asesiadau CA2 ym Mlwyddyn 6, pan fydd plant yn 10 neu'n 11 oed. Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond dwy garfan o ddisgyblion a gafodd eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen tra'u bod yn mynychu ysgolion Peilot sydd hefyd wedi'u hasesu yn CA2. Nid oes unrhyw blant o'r ysgolion Dechrau'n Gynnar wedi'u hasesu yn CA2 eto, ac mae'r asesiadau CA2 cyntaf ar gyfer disgyblion a gafodd asesiadau'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar i'w cwblhau yn ystod blwyddyn academaidd 2013/14.

7.7 Gan gofio'r gofio'r cafeatau hyn, ymddengys bod perfformiad cymharol carfannau cynnar o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen o ysgolion Peilot yn CA2 wedi gwella o gymharu â chyrhaeddiad carfannau cynharach o

ddisgyblion o’r ysgolion hyn. Nid ymddengys bod y data sydd ar gael yn cadarnhau pryderon y gallai symud i ffwrdd oddi wrth yr ymagwedd fwy ffurfiol, yn seiliedig ar gymwyseddau sy’n gysylltiedig â Chwricwlwm Cenedlaethol blaenorol CA1 gael effeithiau negyddol ar gyrhaeddiad tymor hwy. Yn y cyfnod hwn nid yw’r canlyniadau yn bendant ac maent yn sensitif i’r technegau amcangyfrif a ddefnyddiwyd. Yn ogystal, ni ellir cyffredinoli canlyniadau yn seiliedig ar y carfannau cynnar hyn o ddisgyblion i boblogaeth ehangach disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, mae rhywfaint o dystiolaeth betrus i awgrymu bod perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn CA2 wedi gwella ymhlith disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Fe allai’r mwy o bwyslais ar ymagwedd at addysgu ac asesu yn seiliedig ar chwarae fod yn gweithio fel ‘sbardun’ at lefelau cyrhaeddiad uwch yn CA2.

7.8 Yr adroddiad hwn yw’r adroddiad cyntaf ar ddadansoddiad yn seiliedig ar ddata gweinyddol ar yr NPD. Yn ystod y gwerthusiad, ymgymerir â fersiynau pellach o’r dadansoddiad hwn. Nod y cam nesaf fydd ymgorffori data o 2011/12. Eleni fydd y flwyddyn gyntaf pan fydd yr holl blant 6/7 oed wedi’u hasesu drwy’r Cyfnod Sylfaen. Er na ellir gwneud unrhyw gymariaethau mewn deilliannau rhwng deilliannau’r CS a deilliannau CA1, bydd argaeledd y data hwn yn arbennig o bwysig o ran deall effaith y Cyfnod Sylfaen ar absenoliaeth. Bydd argaeledd data 2011/12 hefyd yn galluogi cynnwys yn y dadansoddiad blwyddyn arall o blant a ymgymerodd â’r CS mewn lleoliadau Peilot a gafodd eu hasesu yng Nghyfnod Allweddol 2. Wrth wneud hyn, byddai hefyd yn fuddiol cynnwys data CYBLD llawn 2004/05-2011/12 ar gyfer plant CA2 yn y dadansoddiad fel y gellir rheoli ar gyfer nodweddion y plant hyn mewn modd mwy amserol nag a lwyddwyd i wneud yn yr adroddiad presennol.

## Cyfeiriadau


Caliendo, M. a Kopeinig, S. (2008) Some Practical Guidance for the Implementation of Propensity Score Matching, *Journal of Economic Surveys*, 22, 1, 32-71.

Davies R., Makepeace G., Munday M., Winterbotham, M. a Williams G. (2012) *The 2010 ESF Leavers Survey*, Merthyr: Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. (Ar gael o: http://wales.gov.uk/docs/wefo/report/1206112010esfleaverssurvey2010en.pdf)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) *Y Wlad sy'n Dysgu*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Peel, M. J. a Makepeace G.H. (2009) Differential Audit Quality, Propensity Score Matching and Rosenbaum Bounds for Confounding Variables, *Journal of Business, Finance and Accounting*, 39, 5, 606-648.

Rosenbaum, P.R. (2002) Observational Studies, *Spring Series in Statistics*, Efrog Newydd.

Taylor, C. *et al*. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Blynyddol 2011-12, Ymchwil Gymdeithasol rhif 42/2013*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## Atodiad A. Cynnwys Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion

Rhoddwyd detholiadau o'r NPD i'r tîm ymchwil ar ffurf Cronfa Ddata Mynediad yn cynnwys cyfres o dablau y gellir eu cysylltu. Gellir crynhoi cynnwys y gronfa ddata yn fras fel a ganlyn.

**CYBLD 2004/05-2010/11 ar gyfer CA1 (Meithrin-B2)**

- Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn gyfrifiad o ddisgyblion a gymerir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r data yn rhoi gwybodaeth ar lefel unigol am nodweddion demograffig disgyblion (oed, ethnigrwydd, rhyw), gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig (gan wahaniaethu statws AAA yn ôl a bennwyd disgyblion ar gyfer Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Ddatganiad) a pha un a yw disgyblion yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd). Mae cofnodion ar gael ar gyfer Meithrin 1, Meithrin 2, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Gall disgyblion felly fod ar y gronfa ddata am gyfnod hyd at 5 mlynedd, er mai yn ystod y cyfnod derbyn y caiff y mwyafrif eu harsylwi gyntaf.

**Absenoliaeth (B1+, 2007/08+)**

- Mae data lefel unigol yn dangos nifer y sesiynau a fynychodd disgybl yn yr ysgol mewn blwyddyn academaidd benodol. Rhoddir hefyd gyfanswm nifer y sesiynau y gallai disgybl fod wedi mynychu yn yr ysgol, gan alluogi cael mesur o gyfran yr amser a dreuliwyd yn yr ysgol. Mae gwybodaeth yn cael ei rhoi hefyd am ba un a oedd yr absenoldebau hyn wedi'u hawdurdodi neu beidio.

**Cymarebau athro/disgybl (Derbyn+, 2004/05+)**

- Mae'r tabl hwn yn rhoi data blynyddol ar nifer y disgyblion ac oedolion mewn ysgol. Mae lefel y manylion a gynhwysir yn y data yn amrywio yn ôl ysgolion. Ar gyfer rhai ysgolion, dim ond un adroddiad a wneir. Mae adroddiadau o'r fath yn cwmpasu pob dosbarth (e.e. 5 dosbarth, 80 o blant, 10 aelod o staff). Ar gyfer ysgolion eraill, gwneir nifer o gofnodion mewn perthynas â grwpiau blwyddyn ar wahân, dosbarthiadau neu grwpiau o ddosbarthiadau. Mae rhai cofnodion yn cyfeirio at grwpiau blwyddyn cymysg.

**Deilliannau (Disgyblion Blwyddyn 2)**

- Mae data am ddeilliannau ar gael mewn tablau data ar wahân yn ôl pa un a yw disgyblion yn cael eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen neu drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ar gyfer pob disgybl, gwneir cofnodion ar wahân ar gyfer pob maes pwnc sy'n cael ei asesu. Mae meysydd pwnc a lefelau asesu yn gwahaniaethu rhwng asesiadau a gynhelir drwy CA1 a'r Cyfnod Sylfaen.

# Atodiad B. Trosolwg o'r Fethodoleg Cydweddu Sgôr Tebygolrwydd[10]

## Rhagdybiaeth Annibyniaeth Amodol

Y rhagdybiaeth allweddol a wneir wrth gydweddu modelau yw'r Rhagdybiaeth Annibyniaeth Amodol (RhAA), a elwir hefyd, ymhlith pethau eraill, yr anwybyddadwy a'r di-ddryswch. Gall y grwpiau wedi'u trin a heb eu trin wahaniaethu oherwydd bod iddynt nodweddion gwahanol. Gellir gweld rhai o'r nodweddion hyn (e.e. rhyw neu oed) a gellir eu defnyddio fel newidynnau rheoli i addasu ar gyfer gwahaniaethau rhwng y grwpiau. Nid oes modd gweld nodweddion eraill, ond mae'n rhaid i unrhyw gymhariaeth ragdybio nad yw'r nodweddion anweladwy hyn yn cael effaith systematig ar y deilliannau sy'n amrywio ar draws y ddwy gyfundrefn. Mae'r RhAA yn ddatganiad o amodau, ac o dan hwn gellir anwybyddu effeithiau'r nodweddion anweladwy. Mae'r RhAA neu ei chyfwerth wrth wraidd cymariaethau syml o werthoedd cymedrig. Yng nghyd-destun gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen, mae'n bwysig na chafodd ysgolion a ddewiswyd i gymryd rhan yn yr ysgolion Peilot neu'r ysgolion Dechrau'n Gynnar eu dewis am resymau anweladwy a allai gyfrannu at ddeilliannau gwahaniaethol ymhlith disgyblion o'r ysgolion hyn (e.e. ysgolion sy'n tanberfformio).

Mae gan bob disgybl yn sampl y Cyfnod Sylfaen (triniaeth) a'r sampl heb fod yn y Cyfnod Sylfaen (rheolaeth) nodweddion gweladwy penodol fel rhyw oed, ethnigrwydd, statws PYDd a statws AAA. Cyfeirir yn unigol at y newidynnau hyn fel $Z_k$ ac yn gyfunol fel y fector Z. Os dynodir pob unigolyn gan yr is-nod i, mae'r data yn cynnwys arsylwadau ar ddeilliannau a nodweddion ($Y_i$, $Z_i$). Gall pob disgybl gyflawni gwerthoedd ar gyfer y newidyn deilliannau Y (e.e. cyflawni'r lefel asesu ddisgwyliedig), gan ragdybio yn gyntaf eu bod yn dod o dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen ($Y_1$) ac, yn ail, nad oeddent dan gwmpas y Cyfnod Sylfaen ($Y_0$). Bydd un o'r cyflyrau hyn yn digwydd mewn gwirionedd a

[10] Tynnir y deunydd yn yr atodiad hwn o'r adroddiad 2010 ESF Leavers Survey (Davies et al. 2010) a wnaeth hefyd ddefnyddio technegau cydweddu ystadegol wrth werthuso effeithiolrwydd ymyriadau yn y farchnad lafur a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

bydd y llall – y gwrth-ffeithiol - yn ddamcaniaethol. Mae'r RhAA yn datgan nad yw'r gwerthoedd deilliannau ym mhob cyfundrefn (sef gwerthoedd $Y_0$ ac $Y_1$) yn dibynnu ar ba un a yw'r unigolyn yn gyfranogwr yn y Cyfnod Sylfaen pan fydd gwerthoedd y newidynnau rheoli yn cael eu hystyried[11]. Os cymerwn ddau unigolyn, A a B, gyda gwerthoedd union yr un fath o ran y newidynnau rheoli ($Z_A$=$Z_B$), caiff y gwahaniaethau yn eu gwerthoedd deilliannau (gwerthoedd A a B o $Y_0$ a gwerthoedd A a B o $Y_1$) eu pennu ar hap ac nid ydynt yn dibynnu ar ba un a ydynt wedi'u trin neu beidio. Os yw A yn gyfranogwyr yn y Cyfnod Sylfaen ac nid yw B, gallwn ddefnyddio gwerth gwirioneddol B, sef $Y_0$, i ragweld beth fyddai'n digwydd i A pe na bai'n cymryd rhan yn rhaglen y Cyfnod Sylfaen, a gwerth gwirioneddol A, sef $Y_1$, i ragweld beth fyddai'n digwydd i B pe bai'n cymryd rhan yn y rhaglen. Yn ymarferol, byddem yn dymuno lleihau effaith hap-broses a chymharu gwerthoedd cyfartalog ar gyfer grwpiau tebyg.

Mae'r RhAA yn ymwneud â'r rhagdybiaeth o alldarddiad a wneir mewn modelau atchwel. Y model atchwel y gellir ei gymharu yw:

$$Y_i = \alpha + \delta D_i + Z_i\beta + \varepsilon_i$$

Mae'r RhAA yn gwarantu'r rhagdybiaeth alldarddiad safonol fod D (fel aelod o'r sampl wedi'i thrin) ac $\varepsilon$ yn anghydberthynol. Mae'r fformat atchwel yn dangos yn glir y gallai triniaeth effeithio ar y deilliant yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy newidiadau yng ngwerthoedd y newidynnau rheoli. Os dymunwn nodi effaith gyfan y driniaeth ar Y, mynnwn nad yw gwerthoedd Z yn cael eu heffeithio gan D. Yn y dehongliad hwn a ddefnyddir mewn cydweddu, gall y newidynnau rheoli effeithio ar werth D ond ni chânt hwythau yn eu tro eu heffeithio ganddo. Rhagdybiwn fod ein newidynnau rheoli yn cael eu pennu y tu allan i raglen y Cyfnod Sylfaen. Cyfeirir at gydweddu weithiau fel dewis yn ôl nodweddion gweladwy. Mae'n gwneud addasiad ar gyfer effaith y newidynnau gweladwy, ac mae'r RhAA yn diystyru'r posibilrwydd o unrhyw duedd pellach wrth ddewis am nad oes unrhyw gydberthynas ar ôl

[11] Yn fwy ffurfiol, $((Y_0, Y_1 \perp D) | \boldsymbol{Z})$ lle mae ***Z*** yn fector newidynnau rheoli. Rydym yn defnyddio ***Z*** braidd yn llac i gynrychioli set o newidynnau rheoli sy'n gywir yn ddamcaniaethol yn ogystal â'r rhai union a ddefnyddir yma.

rhwng y newidynnau gweladwy (y term gwall yn yr atchweliad uchod) a statws triniaeth.

### Cymorth Cyffredin

Y cymorth cyffredin yw'r maes lle gellir cymharu'r grwpiau rheoli a thrin yn uniongyrchol. Mewn termau syml, dyma'r set o unigolion yn y grwpiau rheoli a thrin sy'n rhannu gwerthoedd tebyg o ran y newidynnau rheoli, ac y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, o dan yr amgylchiadau cywir, fod yn yr un o'r ddau grŵp. Pe bai rhai mathau o ddisgybl a oedd yn gyfranogwyr yn y Cyfnod Sylfaen bob amser, yna ni fyddai unrhyw unigolion tebyg yng ngweddill sampl yr NPD i wneud cymhariaeth uniongyrchol o'u deilliannau. Un o wendidau ymchwilio ar sail atchweliad yw y gallai wneud cymariaethau o'r fath yn ddiofal drwy allosod profiad y sampl heb fod yn y Cyfnod Sylfaen mewn meysydd lle nad yw'n briodol. Mae cydweddu'n fanwl yn diystyru'r posibilrwydd hwn drwy gyfyngu cymariaethau i'r cymorth cyffredin. Bydd cydweddu'n mynd rhagddo trwy gymryd pob unigolyn wedi'i drin a dod o hyd i unigolyn yn y grŵp rheoli sydd â nodweddion tebyg. O ystyried nifer gyfyngedig yr ysgolion a gymerodd ran yng nghamau cynnar cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, dylai disgyblion tebyg fod ar gael o'r boblogaeth disgyblion nad ydynt yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen.

### Cydweddu Sgôr Tebygolrwydd

Y sgôr tebygolrwydd yw'r tebygolrwydd y bydd disgybl yn cyfranogi yn y Cyfnod Sylfaen. Fe'i diffinnir fel:

$$p(Z) = Pr(D=1| Z)$$

Yn ymarferol, amcangyfrifir y sgôr tebygolrwydd gan ddefnyddio model probid neu logid.

Mae'r RhAA yn ymhlygu nad yw gwerthoedd deilliannau ym mhob cyfundrefn (gwerthoedd $Y_0$ ac $Y_1$) yn dibynnu ar ba un a yw'r disgybl yn gyfranogwr yn y Cyfnod Sylfaen pan fydd gwerthoedd y sgôr tebygolrwydd yn cael eu hystyried. Yn ymarferol, golyga hyn y gallwn gydweddu ar y sgôr tebygolrwydd. Yn gysyniadol, y math symlaf o gydweddu sgôr tebygolrwydd (PSM) yw cydweddu cymydog agosaf. Cymydog agosaf unigolyn yn y sampl

wedi'i thrin yw'r unigolyn yn y sampl heb ei thrin sydd y pellter lleiaf i ffwrdd o ran y sgôr tebygolrwydd. Gallai'r maen prawf hwn arwain at gydweddiadau gwael yn enwedig os yw'r nifer yn y sampl reoli yn fach, felly bydd caliper yn cael ei bennu yn aml. Mae'r caliper yn pennu gwahaniaeth derbyniol uchaf rhwng y ddau sgôr tebygolrwydd. Un broblem ymarferol gyffredin yw beth i wneud pan fydd nifer gymharol fach o reolaethau. Cydweddu heb ddisodli sy'n creu'r cydweddiad agosaf rhwng yr arsylw o'r rhai wedi'u rheoli a'u trin, ac mae'n dileu'r rheoli cyfatebol o'r rhestr sydd ar gael ar gyfer cydweddu. Mae cydweddu gyda disodli yn galluogi cydweddu pob un a reolir, o bosibl, gyda mwy nag un arsylw o'r rhai wedi'u trin. Ar ôl gwneud pob cydweddiad, caiff y rheoli ei ddychwelyd i'r gronfa sydd ar gael ar gyfer cydweddu.